THE SCHOOL AT THE HEART OF WALES

# PROJECT YMCHWIL

YSGOL CALON CYMRU

# Amrywiaeth y Gweithlu a Datblygu Cwricwlwm Gwrth- hiliol

**Awdur:** Mr Lyndon Jones, Pennaeth Cynorthwyol
**Dyddiad:** Mehefin 2023

Campws Llanfair-ym-Muallt
Ffordd y Coleg, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3BW
Ffôn: 01982 553 292

Campws Llandrindod
Ffordd Dyffryn, Llandrindod, Powys, LD1 6AW
Ffôn: 01597 822 992

# Cynnwys

**Cefndir** .... 3
**Cyflwyniad** .... 3
**Nodau ac Amcanion** .... 5
**Dulliau Ymchwil** .... 6
**Rhan 1: Amrywiaeth y Gweithlu** .... 8
Cyd-destun: Gweithlu Amrywiol mewn Addysg .... 8
Data Poblogaeth .... 9
Data'r Gweithlu .... 11
Data Dysgwyr .... 15
Cymhariaeth Gyflawn .... 19
Crynodeb .... 19
Recriwtio .... 20
**Rhan 2: Cwricwlwm Gwrth-hiliol** .... 24
Y Darlun Cenedlaethol .... 24
Cymhwysedd Diwylliannol: Anhiliol i Wrth-hiliol .... 28
Cwricwlwm i Gymru a Gwrth-hiliaeth .... 30
Datblygu Cwricwlwm Gwrth-hiliol .... 31
Pecynau Cymorth a Fframweithiau .... 32
**Diweddglo** .... 35
**Gwerthusiad** .... 37
**Argymhellion** .... 39
**Llyfryddiaeth** .... 40
**Atodiadau** .... 43
Atodiad 1 .... 43
Atodiad 2 .... 46

**Cefndir**

Cyhoeddwyd y cysyniad o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (SLO) yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd yn 2022. Sefydlu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio yw un o'r dimensiynau allweddol yn y cysyniad hwn, ac fe'i nodwyd gan OECD yn 2018 fel dimensiwn oedd angen datblygiad pellach.[1]

Gyda golwg ar gysyniad yr SLO, rheswm arall dros ymgymryd â'r prosiect hwn oedd trafodaeth gyda phennaeth yr ysgol, Dr Richard Jones. Fel rhan o gwrs arwain uwch, roedd rhaid i ymgymryd â thasg arwain oedd yn rhaid ei gwerthuso a'i chyflwyno. Roedd gennyf ddiddordeb yn y syniad o ymdrin â maes a fyddai'n gwyro o'm profiadau cynt a chyfredol. O ganlyniad, nodwyd adnoddau dynol a recriwtio fel fel meysydd i'w datblygu a thyfodd y drafodaeth o gwmpas gwaith diweddar yng Nghymru ar wrth-hiliaeth. Gan feddwl am gymuned yr ysgol, ei daearyddiaeth a'r demograffeg lleol ynghŷd â pharatoadau Ysgol Calon Cymru ar gyfer y Cwricwlm newydd i Gymru, penderfynais ymgymryd ag ymchwiliad anffurfiol i amrywiaeth y gweithlu a datblygiad cwricwlwm gwrth-hiliol.[2]

**Cyflwyniad**

Ar 7fed Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol' gyda'r nod o "wneud newidmesuradwy i fywydau pobl ethnig leiafrifol trwy fynd i'r afael â hiliaeth." (Cyflwyniad i Gymru Wrth-hiliol, 2022).

Amlygir rôl addysg yn y Cynllun gweithredu trwy gyfres o gyrchnodau. Mae'r rhai yn cynnwys addysgu storïau, cyfraniadau a hanes Asiaid Duon a Lleiafrifoedd Ethnig trwy gyfrwng y Cwricwlwm i Gymru diwygiedig; creu gweithlu addysgu gwrth-hiliol trwy ymgorffodi dysgu proffesiynol gwrth-hiliol a chynyddu rectriwtio athrawon o gymunedau ethnig leiafrifol i'r sector Addysg gyda ffocws clir ar recriwtio i raglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA).

Cyfeiriwyd y sbotolau eisoes tuag at y mater o amrywiaeth y gweithlu trwy waith diweddar gan y gweithlu Addysg i Gymru[3] a Davis et al.[4] Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar y darlun Cenedlaethol, ynghŷd ag argymhellion i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol. Rwy'n bwriadu cymharu'r sefyllfa ar lefel Ranbarthol a Lleol, ac ymchwilio pa weithredoedd y gellir eu cymryd er mwyn datblygu gweithlu addysg mwy amrywiol.

Cymru yw rhan gyntaf y DU i wneud dysgu am brofiadau'r Duon, Asiaid a Lleiafrifoedd Ethnig yn orfodol yn y cwricwlwm cenedlaethol. Un o Bedwar Diben Craidd y Cwricwlwm Newydd yw i ddysgwyr yng Nghymru fod yn 'ddinasyddion egwyddorol, gwybodus am Gymru a'r Byd'.

---

[1] OECD (2018), Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru, Gweithredu Polisïau Addysg, OECD Publishing, Paris. https://doi.org/10.1787/9789264307193-en

[2] Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, tudalennau 45-48

[3] EWC (2021), Adroddiad Cam 3 ar Gynrychiolaeth y bobl Dduon, Asiaid a Lleiafrifoeth Ethnig yn y gweithlu ysgolion yng Nghymru ac argymhellion terfynol ar gyfer Llywodraeth Cymru

[4] Davis et al (2021), Recriwtio a Chadw Athrawon Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru – Astudiaeth Ymchwil Ansoddol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Ond nid yw hyn yn ymwneud ag adrannu hanesion y Duon a Lleiafrifoedd Ethnig i un pwnc, yn hytrach mae'n canolbwyntio ar ymgorffori'r diwylliannau a hanesion ar draws pob maes dysgu. Nodwyd nifer o themau trawslifiol i'w cynnwys o fewn i ddyluniad y Cwricwlwm newydd. Mae hyn yn cynnwys Amrywiaeth, sy'n cydorwedd gyda meysydd eraill fel Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh - RSE); Hawliau Dynol; Gyrfaoedd ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith ( GAGG - CWRE) a Chyd-destunau Lleol/Cenedlaethol.[5]

Cymerwyd camau eisoes yng Nghymru i gefnogi ysgolion i ddatblygu arfer gwrth-hiliol. Un o'r rhain yw datblygu ADPG (Amrywiaeth a Dysgu Professiynol Gwrth-hiliol)[6], gyda'u digwyddiadau gweminar a gwefan newydd ei lansio. Yr her i ysgolion yw adolygu darpariaeth gyfredol ac archwilio i greu profiadau dysgu sy'n adlewyrchu natur amrywiol y gymdeithas, y mae'n rhain i'n dysgwyr fod yn barod ar ei gyfer.

Nid bwriad yr ymholiad hwn yw bod yn ddarn cynhwysfawr o ymchwil academaidd ond yn hytrach profiad dysgu proffesiynol yw e. Nod y ddogfen hon yw tynnu sylw at astudiaethau a sgyrsiau diweddar ar amrywiaeth a dyluniad y cwricwlwm. O ganlyniad i'r ymholiad hwn, rwy'n bwriadu amlinellu rhai argymhellion allweddol a phwyntiau gweithredu y gall Ysgol Calon Cymru eu defnyddio. Cydnabyddir na fydd unrhyw ateb cyflym i'r materion a godir a bydd rhaid mabwysiadu newid cynaliadwy, hirdymor i arfer.

[5] Themau trawsgwricwlaidd ar gyfer dylunio eich cwricwlwm – Hwb (llyw.cymru)
[6] https://darpl.org/

## Nodau ac Amcanion

**Nodau:**

1.) Darparu crynodeb o'r wybodaeth allweddol ar gymysgfa ethnig y gweithlu addysg ac ethnigrwydd disgyblion ar lefel Genedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.

2.) Ymchwilio amrywiaeth y gweithlu a sut y gellir ei wella.

3.) Dysgu am wrth-hiliaeth mewn addysg a'r hyn sy'n ffurfio cwricwlwm gwrth-hiliol.

4.) Argymell camau allweddol tuag at ddatblygu cwricwlwm gwrth-hiliol yn Ysgol Calon Cymru.

**Amcanion:**

1a) Casglu data allweddol ar amrywiaeth y gweithlu yng Nghymru, Powys ac yn Ysgol Calon Cymru.
1b) Datblygu ciplun o gymysgedd ethnig dysgwyr yng Nghymru, Powys ac yn Ysgol Calon Cymru.

2a) Darganfod effeithiau posibl gweithlu addysg amrywiol.
2b) Crynhoi argymhellion diweddar gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i hyrwyddo gweithlu addysg amrywiol.


3a) Canfod syniadau ac argymhellion perthnasol a chrynhoi terminoleg allweddol ar bwnc gwrth-hiliaeth mewn addysg.
3b) Crynhoi pwyntiau allweddol a godwyd ac argymhellion a gynigiwyd gan adroddiadau diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar wrth-hiliaeth.

4a). Ymchwilio modelau cyfredol ar ddylunio cwricwlwm gwrth-hiliol o fewn a'r tu allan i Gymru.
4b). Canfod a defnyddiopecynnau cymorth cyfredol i ddatblygu cwricwlwm gwrth-hiliol.

## Dulliau Ymchwil

Gellir rhannu'r ymchwiliad hwn yn fras i ddwy ran. Bydd y rhan gyntaf yn casglu a dadansoddi data'n ymwnbeud â'r boblogaeth gyffredinol, y gweithlu addysg a dysgwyr. Bydd yr ymarfer hwn yn cymharu amrywiaeth y categorïau hyn ar lefel Genedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.

Matrics cymharu data:




Rwy'n bwriadu defnyddio systemau rheoli ysgol a data gan Awdurdod Lleol Powys a Chyngor y gweithlu Addysg i gasglu a choladu data ar amrywiaeth ethnig disgyblion a staff. Bydd y data hwn yn cynrychioli'r darlun Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol. Hefyd, rwy'n bwriadu defnyddio data'r cyfrifiad a'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) fel ffynonellau ychwanegol o wybodaeth.

Yn y broses o ymgymryd ag ail ran yr ymchwiliad hwn, rwy'n bwriadu ymchwilio llenyddiaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys adroddiadau a gomisiynwyd, canllawiau ar y cwricwlwm ac adroddiadau gweithredu. Byddaf yn dibynnu'n arbennig ar dri chyhoeddiad allweddol i gael gwybodaeth ystadegol a chaffael mwy o ddealltwriaeth am bolisi addysg gydag argymhellion cysylltiedig. Rhagwelir y bydd y cyhoeddiadau hyn yn helpu i gyfarwyddo'r camau y bydd rhaid i ni eu cymryd yn Ysgol Calon Cymru.

Y cyhoeddiadau hyn yw:

1.) Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chyfraniadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm newydd: adroddiad terfynol y gweithgor. (Cadeiriwyd gan yr Athro Charlotte Williams, cyhoeddwyd mis Mawrth 2021)

2.) Recriwtio a Chadw Athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru – Astudiaeth Ymchwil Ansoddol (Dr Susan Davis, Chantelle Haughton, Sammy Chapman, DrRom Okeke, Martin Smith, Dr Aylwin Yafele, Kin Yu, cyhoeddwyd mis Mehefin 2021)

3.) Cynrychiolaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Gweithlu Ysgolion yng Nghymru – Adroddiad Cam 3 (Ben Lester a Rachel Price, Cyngor y Gweithlu Addysg, cyhoeddwyd mis Gorffennaf 2021)

Adolygir llenyddiaeth o du allan i Gymru hefyd er mwyn caffael mwy o fewnweledwiad, yn benodol ar ddyluniad cwricwlwn gwrth-hilol. Adolygir papurau ymchwil a chanllaw diweddar gan ffynonellau ar-lein yn ogystal â negeseuon blog ac erthyglau a geir ar wefannau priodol a pherthnasol.

Fy nod yw cyfrannu mewn sgyrsiau diweddar gydag unigolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol a1 gwaith cyfredol ar wrth-hiliaeth yn addysg Cymru. Rwy'n bwriadu cyfarfod â Dr Susan Davis a Chantelle Haughton, cyd-awduron "Recriwtio a Chadw Athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru – Astudiaeth Ymchwil Ansoddol". Bydd cysylltu ag unigolion nid yn unig yn rhoi mewnweledwiad ond bydd yn ychwanegu hygrededd i'm ymholiad ymchwil. Bydd y sgyrsiau hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd i rwydweithio gydag ymarferwyr eraill ledled Cymru, wrth i ni ddatblygu gwrth-hiliaeth i'n cwricwlwm.

# Cyd-destun: Gweithlu Amrywiol mewn Addysg

Cydnabyddir yn gyffredinol y pwysigrwydd o gael gweithlu addysg amrywiol sy'n adlewyrchu cymdeithas cynyddol amrywiol (Phillips 2014; DfES 2018; Goldhaber, Theobald a Thien 2020). Cyfeirir yn gyffredin at dri rheswm pam y mae modelau rôl athrawon o'r un rhyw yn rhoi buddion addysgol cadarnhaol i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn benodol.[7] Yn gyntaf, gall athrawon a staff o gefndiroedd amrywiol fod yn fodelau rôl a mentoriaid i ddysgwyr, yn arbennig y rheiny a all wynebu heriau ychwanegol neu rwystrau i lwyddiant. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo dysgwyr yn gweld unigolion llwyddiannus o gefndiroedd cyffelyb a all ysbrydoli a symbylu myfyrwyr i gyflawni eu nodau. Yn ail, mae dysgwyr hefyd yn fwy tebyg o fod yn fwy ymwybodol yn ddiwylliannol a chymdeithasol o'u hamlygu i weithlu addysg amrywiol, lle gall athrawon o gefndiroedd amrywiol dynnu ar eu profiadau a safbwyntiau eu hunain i gyfoethogi addysg dysgwyr. Yn olaf, gellir dadlau bod athrawon ogefndiroedd lleiafrifol ethnig yn fwy tebyg o feddu ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig (Ferguson, 2003).

Gellir dadlau bod "diffyg amrywiaeth yn y gweithlu ysgol yn anfon negeseuon pwerus i bob plentyn a pherson ifanc ynglŷn â phwy sy'n dal awdurdod, gwybodaeth ac arweinyddiaeth." (Brighton & Hove Strategaeth Addysg Gwrth-hiliol, 2022, tudalen 23)

Mae'n bwysig bod gan ysgolion weithlu addysg amrywiol i weithio gyda dysgwyr amlddiwylliannol, ond mae'n bwysig hefyd ystyried na fydd pob ysgol a chymuned yn adlewyrchu'r amrywiaeth hwn, o bosibl. Gellir dadlau bod hyn yn wir am Ysgol Calon Cymru, y gellir ei disgrifio fel lleoliad nad yw'n un trefol gydag athrawon wgyn a dysgwyr gwyn yn bennaf. Er gwaethaf hyn, mae'n dal yn bvwysig i ysgolion heb fawr o amrywiaeth ethnig addysgu Dywedir hyn yn bendant yn y cwricwlwm newydd i Gymru, lle ceir nod i ddysgwyr fod yn 'ddinasyddion egwyddorol, gwybodus'[8] a chynnwys amrywiaeth fel thema trawsgysylltiol. Hyd yn oed mewn cymuned wledig gwyn yn bennaf, bydd y myfyrwyr yn dal i wynebu persbectifau a phrofiadau amrywiol gydol eu bywydau. Mae datblygu gwrth-hiliaeth mewn ysgolion yn helpu i baratoi myfyrwyr i ryngweithio gyda phobl o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol, yn eu gyrfaoedd academaidd a phroffesiynol yn y dyfodol. Hefyd, gall helpu dysgwyr i ddeall sut y mae gwahanol fathau o hiliaeth yn digwydd a sut y gallant weithio i'w wrthsefyll. Mae hyn yn cysylltu â'r agwedd bwysig o addysgu empathi i bobl ifanc wrth iddynt dyfu, fel bo ganddynt ddealltwriaeth o bobl sydd wedi profi hiliaeth a gwahaniaethu. Gall hyn helpu i adeiladu cymdeithas mwy trugarog a goddefgar. Trwy werthfawrogi ac ymgorffori persbectifau a phrofiadau amrywiol, gall gweithlu addysg mwy amrywiol helpu i ymgysylltu dysgwyr a gwella eu canlyniadau academaidd.[9] Wrth ystyried y materion a godwyd yng nghyd-destun Ysgol Calon Cymru, gellir dadlau, trwy arsylliad Mae'n berthnasol hefyd ystyried y demograffeg lleol mewn cymhariaeth â'r darlun rhanbarthol a chenedlaethol. Gellir dadlau bod byw mewn cymuned heb boblogaeth amrywiol yn gallu bod yn rhwystr i gynyddu'n effeithiol ymwybyddiaeth

---

7 https://kappanonline.org/why-we-need-diverse-teacher-workforce-segregation-goldhaber-theobald-tien

8 https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designing-your-curriculum/developing-a-vision-for-curriculum-design/#curriculum-design-and-the-four-purposes

9 Khalifa, M. (2018). Culturally Responsive Pedagogy in Action: Building a Bridge Between Research and Practice. Journal of Education for Students Placed at Risk, 23(1-2), 63-73.

a dealltwriaeth am ddiwylliannau amrywiol. Gellir dadlau hefyd bod ardaloedd gwledig yn fwy tebyg o feddu ar agweddau rhagfarnllyd tuag at y rheiny o gefndir lleiafrifol ethnig, oherwydd diffyg yr amrywiaeth diwylliannol mewn cymunedau gwledig.

# Data Poblogaeth

Er mwyn rhoi amrywiaeth y boblogaeth yn ein hysgolion i gyd-destun, penderfynais ymchwilio amrywiaeth poblogaeth y boblogaeth cyffredinol yng Nghymru. Yna, roeddwn am gymharu hyn gyda'r amrywiaeth yn y boblogaeth yn sir Powys, sef lleoliad Ysgol Calon Cymru.

**Cymru:**
Y set gyntaf o ddata yn yr ymchwil oedd ystadegau'n ymwneud â phoblogaeth gyffredinol Cymru .

- Yng Nghyfrifiad 2021, dywedodd 93.8% o'r boblogaeth yng Nghymru fel "Gwyn". Roedd hwn yn ostyngiad o 95.6% yn 2011.
- Dywedodd 2.9% o'r boblogaeth eu bod yn "Asiaid, Asiaid Cymreig neu Asiaid Prydeinig". Troedd hyn yn gynnydd o 2.3% yn 2011.
- Dywedodd 1.6% o'r boblogaeth eu bod yn "grwpiau Cymysg neu Ethnig Luosog". Roedd hyn yn gynnydd o 1.0% yn 2011.
- Dywedodd 0.9% o'r boblogaeth eu bod yn "Dduon, Duon Cymreig, Duon Prydeinig, Caribeaid neu Affricanaidd". Roed dhyn yn gynnydd o 0.6% yn 2011.

*(Ffynhonnell: www.gov.wales/ethnic-group-national-identity-language-and-religion-wales-census-2021)*

**Powys:**
Mae'r set nesaf o ddata'n amlygu ethnigrwydd y boblogaeth o fewn i Sir Powys. Lleolir Ysgol Calon Cymru yn ne'r Sir. Cymerwyd yr ystadegau canlynol o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac yn seiliedig ar gyfrifiad 2021.

- Dywedodd 97.7% o'r bobl ym Mhowys bod eu grw1p ethnig yn y categori "Gwyn" (o'i gymharu â 98.4% yn 2011).
- Dywedodd 0.9% bod eu grŵp ethnig yn y categori "Asiaid, Asiaid Prydeinig neu Asiaid Cymreig" (0.9% o'r degawd blaenorol hefyd).
- Dywedodd 0.9% o breswylwyr Powys bod eu grŵp ethnig yn y categori "Cymysg neu Luosog", i fyny o 0.6% yn 2011


  *(Ffynhonnell: https://www.gov.wales/ethnic-group-national-identity-language-and-religion-wales-census-2021-html)*


**Yr ardal:**
Mae'r tabl isod yn dangos ethnigrwydd y trefi lle lleolir Ysgol Calon Cymru. Cymerwyd yr ystadegau othe wefan www.citypopulations.de. Cymerwyd y data ar y wefan o gyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Y cyfyngiad ynglŷn â'r data hwn yw ei fod ond yn cynnwys cofrestriadau'r cyfrifiad gan bobl sy'n byw tu fewn i ffiniau tref. Felly, nid yw'r data'n cynnwys cofrestriadau gan ganolfannau eraill o boblogaeth fel Y Bontnewydd-ar Wy, Crossgates, Penybont, Llanelwedd a thrigfannau pellennig eraill.

| | **Llandrindod** | | **Llanfair-ym-Muallt** | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | canran |
| **Poblogaeth** | 5,435 | | 2,621 | |
| **Gwyn** | 5,255 | 96.7% | 2,580 | 98.4% |
| **Asiaidd** | 65 | 1.2% | 18 | 0.7% |
| **Du** | 18 | 0.3% | 8 | 0.3% |
| **Arab** | 13 | 0.2% | 0 | 0 |
| **Cymysg/Lluosog** | 78 | 1.4% | 14 | 0.5% |
| **Grŵp ethnig arall** | 12 | 0.2% | 3 | 0.1% |

**Cymharu'r Boblogaeth:**




Yn ôl y disgwyl mae canran poblogaeth Powys (97.7%) a lleoliadau campysau Ysgol Calon Cymru (97.6%), sy'n datgan eu bod yn "Wyn" yn uwch na'r ffigur Cenedlaethol (93.8%).

Mae canran y boblogaeth sy'n dweud eu bod "Ddim yn wyn" yn uwch o fewn i ardal Ysgol Calon Cymru o gymharu â gweddill Powys. Gellid dadlau y gellid disgrifio Powys ac ardal dalgylch Ysgol Calon Cymru fel un nad yw'r amrywiol neu'n fono-ethnig.


# Data'r Gweithlu

Ar ddechrau 2020 rhoddwyd y dasg i Gyngor y gweithlu Addysg, fel rhan o brosiect ehangach a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, o gynnal ardolygiad cyflym o dystiolaeth yn ymwneud ag

amrywiaeth ethnig gweithlu'r ysgol yng Nghymru. Cyhoeddwyd cam 2 yr adolygiad ym mis Ebrill 2020 gan ganolbwyntio ar broffil ethnig gweithlu'r ysgol fyng Nghymru (gweithwyr cefnogi dysgu, athrawon, uwch arweinwyr a phenaethiaid). Roedd hefyd yn ystyried sut oedd proffil ethnig gweithlu'r ysgol yn cymharu â phroffil poblogaeth disgyblion yr ysgol (gan ddefnyddio data CYBLD) a phoblogaeth ehangach Cymru (yn seiliedig ar ddata gan ONS).

**Cymru:**

Cymerwyd y graff isod yn uniongyrchol o'r Cynrychiolaeth Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn y gweithlu ysgolion yng nghymru Adroddiad Cam 2.




Ffynhonnell: EWC

Roedd data EWC yn dangos bod, fel ar 1 Mawrth 2019:

- dros 88% o'r 35,545 thro ar y gofrestr yng Nghymru wedi dweud eu bod yn "Wyn Prydeinig".
- Roedd 3% wedi dweud eu bod mewn grŵp ethnig arall, a'r mwyaf o'r rheiny oedd o gefndir 'Unrhyw Berson gwyn Arall' 2%).
- Roedd nifer yr athrawon nad oeddent yn wyn ar y gofrestr yn sylweddol llai (0.4% Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, 0.2% Du neu Ddu Prydeinig a 0.5% Cymysg).


**Powys:**

Darparwyd y data canlynol gan adran adnoddau dynol Awdurdod Lleol Powys yn 2022. Nifer yr athrawon lethnig lleiafrifol, a oedd wedi rhoi gwybodaeth wrth gofrestru gyda'r awdurdod lleol, yw 14 o gyfanswm o 1350. Mae hyn cyfwerth â 1.04% o athrawon ym Mhowys. Wrth ystyried y term ethnig lleiafrifol, roedd manylion y disgrifwyr ethnigrwydd oedd ar gael ar ffurflenni cofrestru a gwblhawyd gan athrawon yn cynnwys:

| Disgrifiad | Nifer yr Athrawon |
|---|---|
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig/Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall | 4 |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig-Tseineaidd | 1 |
| Du/Affricanaidd/Caribeaidd/Prydeinig-Affricanaidd | 2 |
| Du/Affricanaidd/Caribeaidd/Prydeinig-Caribeaidd | 1 |
| Cymysg/Grwpiau Ethnig Lluosog -Gwyn ac Asiaidd | 5 |
| Grwpiau Ethnig Arall /Unrhyw Grŵp Ethnig Arall | 1 |

Roedd 1295 athro wedi categoreiddio eu hunain fel Gwyn Prydeinig, sy'n cyfateb i 95.9% o athrawon y sir. Roedd 41 athro, sy'n cyfateb i 3.04%, wedi categoreiddio eu hunain fel Gwyn Gwyddelig neu Gefndir Gwyn Arall.

| Disgrifiad | % yr Athrawon |
|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 95.9 |
| Gwyn Gwyddelig neu Arall | 3.04 |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 1.04 |




Rhaid nodi bod dros hanner (1558 allan o gyfanswm o 2908) heb roi gwybodaeth i'r awdurdod Lleol ar eu cefndir ethnig.

**Ysgol Calon Cymru:**


Er mwyn cael data ar amrywiaeth ethnig y staff, defnyddiais y rhestr athrawon o'r system rheoli Go4Schools er mwyn canfod enwau staff unigol. Yna, chwiliais am bob aelod o staff yn ein hail system rheoli, SIMS, i edrych ar eu tarddiad ethnig oedd yn y manylion staff.

| Grŵp | Nifer y Staff | % |
|---|---|---|
| **Gwyn** | **96** | **99** |
| **Gwyn Ewropeaidd Arall** | **1** | **1** |
| **Dim gwybodaeth** | **3** | **3** |

Roedd y chwiliad data ar SIMS wedi rhoi canlyniad o 0 aelod staff ethnig lleiafrifol yn Ysgol Calon Cymru. Mae hyn yn amlwg yn is na chfartaledd y Sir ac yn Genedlaethol. Roedd yr unig aelod staff arall nad oedd wedi categoreiddio ei hun fel Gwyn Prydeinig, wedi categoreiddio ei hun fel Gwyn Ewropeaidd.

Mae'r canlyniad hwn, gyda % isel y dysgwyr BAME, yn amlygu diffyg amrywiaeth ethnig yn Ysgol Calon Cymru.

**Cymharu'r Gweithlu:**





Mae'r graff hwn yn amlygu'r gwahaniaeth yng nghanran y gweithlu sy'n dweud eu bod yn Wyn yn Ysgol Calon Cymru (99%) o gymharu â'r ffigur Cenedlaethol (88%).

## Data Dysgwyr

Mae Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn gasgliad electronig o ddisgyblion a data lefel ysgol a ddarparwyd gan bob ysgol a gynhelir yn y sector cynradd, canol uwchradd, meithrin ac ysgolion arbennig ym mis Ionawr bob blwyddyn. Casglwyd y fersiwn ddiweddaraf o ganlyniadau a gasglwyd ym mis Chwefror 2022 (casgliad data gohiriedig oherwydd lefelau Coronafeirws ym mis Ionawr 2022), a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022 gan Lywodraeth Cymru.

**Cymru:**





*Ffynhonnell: CYBLD 2022*

Nifer y dysgwyr yng Nghymru oedd yn dweud eu bod yn Wyn Prydeinig oedd 86.7% a'r rheiny oedd yn dweud eu bod o gefndir ethnig gwahanol yn 12.7%.

**Powys:**

Gan ddefnyddio data CYBLD unwaith eto ond o wefan StatsWales, mae'r graff isod yn dangos canran ethnigrwydd dysgwyr ym Mhowys, fel yr oedd ym mis Chwefror 2022.




*Ffynhonnell: [https://statswales.gov.wales](https://statswales.gov.wales)*

Nifer y dysgwyr ym Mhowys oedd yn dweud eu bod yn Wyn Prydeinig oedd 93.7% a'r rheiny oedd yn dweud eu bod o gefndir ethnig gwahanol yn 6%.

**Ysgol Calon Cymru:**


Er mwyn caffael data ar ethnigrwydd disgyblion defnyddiais Go4Schools, sef un o systemau rheoli data Ysgol Calon Cymru. Dyma'r data mwtaf cyfredol a phenodol sydd ar gael ar gyfer yr ysgol

| Grŵp | Nifer y dysgwyr | % |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeining | 972 | 95.86% |
| Gwyn Arall | 12 | 1.18% |
| Gwyn ac Ewropeaidd | 5 | 0.49% |
| Caribeaidd | 3 | 0.30% |
| Gwyn a Charibeaidd Du | 4 | 0.39% |
| Asiaidd | 1 | 0.10% |
| Gwyn ac Asiaidd | 5 | 0.49% |
| Indiaidd | 1 | 0.10% |
| Hong Kong Tseineaidd | 1 | 0.10% |
| Cypraidd Groegaidd | 2 | 0.20% |
| Syriaidd | 1 | 0.10% |

| | | |
|---|---|---|
| Filipinaidd | 1 | 0.10% |
| Cymysg | 1 | 0.10% |
| Teithwyr | 1 | 0.10% |
| Grŵp Ethnig Arall | 3 | 0.30% |
| Gwrthod Gwybodaeth | 4 | 0.39% |


Canran y dysgwyr oedd eu bod yn dweud eu bod yn **Ddu, Asiaidd neu Leiafrifol Ethnig yw 2.38%.**


Canran y rheiny sy'n dweud eu bod yn rhywbeth arall na **Gwyn Prydeinig yw 4.14%**





Nifer y dysgwyr sy'n mynychu Ygol Calon Cymru sy'n dweud eu bod yn Wyn Prydeinig oedd 95.9% a'r rheiny oedd yn dweud eu bod o gefndiroedd ethnig arall oedd 3.7%.

**Cymariaethau Dysgwyr:**


% Y DYSGWYR
Wales
Powys
YCC
98
96
94
92
90
88
86
84
88
93.7
95.9
Gwyn Prydeinig


% Y DYSGWYR
Wales
Powys
YCC
14
12
10
8
6
4
2
0
12.7
6
3.7
Cefndir Ethnig Arall


% Y DYSGWYR
Wales
Powys
YCC
0.7
0.6
0.5
0.4
0.3
0.2
0.1
0
0.6
0.3
0.4
Arall / Anhysbys

## Cymhariaeth Cyffredinol

| % y rhai a ddywedodd eu bod yn Wyn | | | |
|---|---|---|---|
| | Poblogaeth | Gweithlu | Dysgwyr |
| Cymru | 93.8% | 88% | 86.7% |
| Powys | 97.7% | 98.9% | 93.7% |
| Ysgol Calon Cymru | 97.6% | 99% | 95.9% |

Y prif gymhariaeth i'w amlygu gyda'r set hwn o ddata yw'r gwahaniaeth yn y lefelau o amrywiaeth ymysg y dysgwyr a'r gweithlu. Mae'r data'n dangos bod llai o ddysgwyr yn Ysgol Calon Cymru sy'n dweud eu bod o gefndiroedd ethnig arall (3.7%) o'u cymharu â gweddill Cymru (12.7%). Does dim uin aelod o weithlu Ysgol Calon Cymru sy'n dweud eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol. Roedd pob aelod o'r gweithlu'n dweud eu bod naill ai'n Wyn Prydeinig neu'n Wyn Ewropeaidd.

| % y rhai sy'n dweud eu bod yn BAME | | | |
|---|---|---|---|
| | Poblogaeth | Gweithlu | Dysgwyr |
| Cymru | 8.2% | 3% | 12.7% |
| Powys | 1.5% | 1% | 6% |
| Ysgol Calon Cymru | 2.3% | 0% | 2.4% |

Ledled Cymru, roedd 3% o'r gweithlu'n dweud eu bod o gefndir ethnig gyda 8% naill ai ddim yn gwybod neu heb ddweud.

## Crynodeb

Mae'r ffaith nad oes yr un athro o gefndir lleiafrifol ethnig yn Ysgol Calon Cymru'n pwysleisio diffyg amrywiaeth yn ein gweithlu. Os ydych yn cysylltu hyn â chanran isel y dysgwyr lleiafrifol ethnig yn Ysgol Calon Cymru o'u cymharu â Phowys a Chymru, yna mae'n hawdd canfod yr anawsterau a all bodoli wrth ddatblygu cymwysedd diwylliannol a gweithredu cwricwlwm gwrth-hiliol. Gall y rhain gynnwys synnwyr uwch o 'arall' ymysg dysgwyr lleiafrifol ethnig ac anghysur wrth wynebu'r pwnc o wrth-hiliaeth gyda staff.

Mae'r anawsterau a gododd o'r ymchwil cynradd hwn yn ymwneud â dosbarthiad a chysondeb terminoleg. Defnyddiwyd ffynonellau gwahanol ar gyfer y rhan hwn o'r ymchwil, gan arwain at ddarganfod terminoleg gwahanol. Arweiniodd hyn at anghywirdebau posibl yn y data a gyflwynwyd yma. Er hynny, yr hyn y mae'r data'n ei ddangos yw'r gwahaniaethau yn lefelau amrywiaeth y gweithlu addysg a'r dysgwyr a'r dybiaieth na fyddai data demograffig yn newid fawr iawn yn ystod 12–18 mis.

# Recriwtio

Isod ceir enghreifftiau o heriau sy'n bodoli ynglŷn â recriwtio gweithlu amrywiol mewn addysg.

- Tangynrychiolaeth o fyfyrwyr BAME yn y gweithlu addysg. Yn ôl adroddiad gan Undeb cenedlaethol yr Athrawon, dim ond 5.3% o athrawon yng Nghymru sydd o gefndir BAME, o'u cymharu â 5.5% yn Lloegr. Mae'r tangyflawniad hwn yn fwy arwyddocaol mewn swyddi arwain, lle dim ond 2.2% o bemaethiaid Cymru sydd o gefndir BAME, o'u cymharu â 3.7% yn Lloegr (Undeb Cenedlaethol Athrawon, 2018).

- Myfyrwyr BAME yn wynebu mynediad anghyfartal i gyfleoedd. Dengys ymchwil bod myfyrwyr BAME yn llai tebyg o fynychu'r prifysgolion gorau ac yn fwy tebyg o beifdio â pharhau i addysg uwch (Prifysgolion y DU, 2019). Gall y rhwystrau hyn i addysg gyfyngu ar nifer y myfyrwyr BAME sy'n dilyn gyrfa mewn addysg ac, o ganlyniad, yn lleihau'r nifer posibl o athrawon BAME.

- Mae Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil Llywodraeth Cymru'n amlygu bod myfyrwyr BAME yn wynebu gwahaniaethu yn ystod eu siwrnai addysgol, o ysgol gynradd i addysg uwch. Gall y gwahaniaethu hwn effeithio ar fynediad myfyrwyr BAME i gyfleoedd, eu cyflawniad academaidd, a'u hyder i ddilyn gyrfa mewn addysg (Llywodraeth Cymru, 2021).

**Datblygu Recriwtio a Chadw:**
Ym mis Hydref 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu "Cynllun Recriwtio Cychwynnol i Addysg o Athrawon Duon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig". Roedd y cynllun hwn yn seiliedig ar adolygu'r dstiolaeth a gynhaliwyd gan y Cyngor y Gweithlu Addysg i Gymru (CGA) i amrywiaeth ethnig yng ngweithlu'r ysgol. Dangosodd yr adolygiad hwn bod "y data'n dangos tangynrychiolaeth clir yn y gweithlu addysg gyda dim ond 3% o athrawon yn dweud eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol yn erbyn poblogaeth dysgwyr o 12%" ("Cynllun Recriwtio Cychwynnol Addysg i Athrawon Duon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig", Llywodraeth Cymru, 2021).

Roedd y cynllun hefyd wedi ystyried argymhellion gan y grŵp a gadeiriwyd gan Dr Charlotte Williams – Gweithgor y Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, Cyfraniadau a Chynefin yn y Cwricwlwm Newydd –ac adroddiad a gomisiynwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd "Recriwtio a Chadw Athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru – Astudiaeth Ymchwil Ansoddol".

Mae pob un o'r 3 ddogfen allweddol hyn yn amlygu'r mater o ddiffyg amrywaieth yn y gweithlu – "Ledled Cymru mae'r gweithlu athrawon yn llai ethnig amrywiol na'r carfannau o ddysgwyr yn maent yn eu haddysgu" (Davis, Haughton et al 2021)

Roedd y "Cynllun Recriwtio Addysg Cychwynnol i Athrawon Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig" yn canolbwyntio ar 3 thema allweddol ac yn gorffen gyda rhestr o gamau gweithredu yn ymwneud â rhanddeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Partneriaethau AGA, Cyngor y gweithlu Addysg ac ESTYN, *I gael rhestr gyflawn o'r camau gweithredu gweler Atodiad 1*

**Hyrwyddo addysgu fel gyrfa i unigolion o gymunedau lleiafrifol ethnig**

- Bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'u strategaeth marchnata AGA ehangach, yn datblygu gweithgaredd cyfathrebu a dargedwyd sydd wedi ei anelu at unigolion o leiafrifoedd ethnig. Mae gan ddeunyddiau a ddefnyddir i hyrwyddo addysgu fel gyrfa y lefel briodol o weledadd a chynrychiolaeth o gymunedau leiafrifol ethnig.

- Ar y cyd â hyn, rhaid cael rôl gynyddol yn y gwasaeth eirioliaeth a ddarparwyd gan y CGA, a fydd, oherwydd cyfyngiadau, yn digwydd trwy sianeli pellennig (e.e. webinarau).

- Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu partneriaethau AGA i ddatblygu cynlluniau recriwtio a ddyluniwyd yn benodol i ddenu myfyrwyr leiafrifol ethnig ar y cyrsiau.

- Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Gyrfaoedd Cymru i hyrwyddo addysgu fel gyrfa i ddysgwyr sy'n dal i fod yn yr ysgol ac yn arbennig y rheiny o gefndiroedd amrywiol .

**Cefnogi myfyrwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol**

- Mae ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn cael cefnogaeth briodol cyn ymgeisio ar gyfer cyrsiau AGA, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig i weithio gyda Phartneriaethau AGA i ddatblygu adnoddau.

- Proses o adborth cadarn ac ystyrlon ar gyfer yr holl ymgeiswyr aflwyddiannus i raglenni AGA ac yn benodol ar gyfer y rheiny o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Bydd hyn yn helpu'r ymgeiswyr hynny i ganfod ddiffygion yn eu ceisiadau a'u paratoi ar gyfer unrhyw gais yn y dyfodol.

- Lleoliad addas mewn ysgolion i fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig er mwyn sicrhau bod cefnogaeth lawn ar gael i'w myfyrwyr hyn yn ystod eu lleoliadau profiad ysgol.

**Rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon a datblygu polisi**

- Bydd Partneriaethau AGA yn cynnal adolygiad o arferion cyfredol yn y rhaglenni ac yn canfod meysydd i'w gwella.

- Sicrhau bod aelodaeth y Bwrdd Cynghori ar Recriwtio a Chadw Athrawon (BCRCA) – sy'n cefnogi ac yn rhoi cyngor ar ddatblygu polisi – yn cynnwys cynrychiolaeth er mwyn rhoi persbectif leiafrifol ethnig.

Un o'r argymhellion niferus sy'n codi o adroddiad terfynol y gweithgor "cymunedau cyfraniadau a Chynefin pobl Dduon, Asiaidd a eiafrifoedd Ethnig yn y cwricwlwm newydd" oedd i Lywodraeth Cymru ddarparu ysgoloriaethau penodol i egfnogi myfyrwyr Addyg Gychwynnol Athrawon o'r grwpiau Duon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.[10] Datblygwyd dau gynllun cymhelliant yn benodol, sef y cynllun cymhelliant i bynciau â blaenoriaeth a chynllun cymhelliant cyfrwng Cymraeg (Iaith Athrawon Yfory). Ym mis Mawrth 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru asesiad effaith integredig ar fentrau lleiafrifol ethnig i addysg gychwynnol i athrawon. Roedd yn cynnwys cynnig i ddatblygu 'ysgoloriaeth' fydd wedi ei strwuthuro mewn modd cyffelyb i Gynllun Cymhelliant Addysg gychwynnol Athrawon (AGA) Iaith Athrawon Yfory (IAY), am fod y cynllun IAY wedi dyblu'n llwyddiannus nifer yr ymgeiswyr targed mewn 2 flynedd.

Ar 22 Hydref 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru gategori Gwobr Addysgu proffesiynol newydd, dan yr enw "Gwobr Betty Campbell MBE er hyrwyddo cyfraniadau a phersbectifau cymunedau'r Duon, Asiaidd ac Ethnig `Leiafrifol". Mae'r wobr newydd hon yn hyrwyddo a dathlu cyn hwysiad ac yn cydnabod ymwybyddiaeth ardderchog o bwysigrwydd addysg gynhwysol fel rhan o gymdeithas sy'n wynebu ac yn mynd i'r afael â hiliaeth yn eu holl ffurfiau.

Amser ysgrifennu un o barneriaid AGA allweddol Ysgol Calon Cymru, sef Prifysgol Aberystwyth, yw'r unig Bartneriaeth AGA lle nad yw eu Strategaeth Recriwtio Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig leiafrifol ar gael yn gyhoeddus.

Roedd yr adroddiad i "Recriwtio a Chadw Pobl Dduon, Asiaidd a Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru" (Davis et al, 2021) wedi nodi 4 pennawd i argymhellion allweddol. Y rhain oedd 'recriwtio'; 'cadw'; 'cyfrifoldebau ysgolion/Sefydliadau Addysg Uwch/Consortia' ac 'ymchwil yn y dyfodol'.

Mae enghreifftiau o argymhellion penodol yn cynnwys:

- Disgrifiadau/meini prawf swyddi i adlewyrchu'r angen am staff mwy amrywiol.

- Cyngor gyrfaoedd a dargedwyd i ddysgwyr lleiafrifol ethnig.

- Mentora a chyfarwyddyd i staff lleiafrifol ethnig yn ymwneud â dilyniant gyrfa e.e. rolau arwain, pontio o CA i athrawon cwbl gymwysiedig.

- Hyfforddiant i staff ysgol neu mewn rhaglenni AGA i fyfyrwyr ar 'llythrennedd hiliol' a phwysigrwydd dull gwrth-hiliol i arfer proffesiynol.

Ystyriwyd cynnwys yr adroddiad hwn a'r argymhellion gan Lywodraeth Cymru yn eu cynllun cadw trosfwaol y soniwyd amdano eisoes.

---

[10] Williams, C (2021): Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd: Adroddiad Terfynol – Argymhelliad 9

Gall Ysgol Calon Cymru gymryd argymhellion y bwrdd a'r cynnwys sy'n codi o'r adroddiadau diweddar hyn i greu gweithlu mwy amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o ymrywmiad gyda phartneriaid AGA, adolygu'r polisi recriwtio, cynnwys dogfennau recriwtio ac ymrwymiad gyda BAMed Cymru ynglŷn â defnyddio eu platfform i hysbysebu swyddi.

# Y Darlun Cenedlaethol

Mae hiliaeth yn fatertreiddiol sy’n effeithio unigolion a chymunedau ledled y byd. Mae’n fater sydd wedi dal i fodoli yng Nghymru wrth i’n cymdeithas fynd yn fwy amrywiol ac amlddiwylliannol. Mae lladd George Floyd yn America ar 25 Mai 2020 wedia rwain at brotestiadau ledled y byd yn erbyn creulondeb yr heddlu, hiliaeth a diffyg atebolrwydd (yn cynnwys mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru)[11] ac ar yr un pryd roedd effaith anghyfartal uchel Covid-19 ar gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi amlygu hefyd effaith anghyfartaleddau hiliol yn y gymdeithas Brydeinig.[12] Gyda’i gilydd mae’r ffactorau hyn wedi creu ffocws newydd ar fudiadau fel Black Lives Matter (BLM) a daeth yn gatalydd ar gyfer dadl frwd yn y DU, yn ymwneud â natur a chanlyniadau anghyfartaleddau hiliol sy’n bodoli ac etifeddiaeth ymherodraeth Prydain.

Ym mis Mawrth 2020 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Cyfartaledd Hil a arweiniodd wedyn yn 2022 at gyhoeddi “Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hliol”. Me’r Cynllun gweithredu’n gosod nifer o nodau’n ymwneud ag addysg. Maent yn cynnwys:

- Gweithlu sector cyhoeddus sydd ‘o leiaf yn cynrychioli’n gywir y boblogaeth y mae’n ei wasanaethu’;
- Timau awrain a byrddau cyrff cyhoeddus sy’n gynrychioladol ac yn gynhwysol;
- Cyrff cyhoeddus yn defnyddio eu grym gwario i wella arweinyddiaeth a chynrychiolaeth ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydyddol.

Mae’r Cynllun gweithredu hefyd yn amlygu pwysigrwydd gweithlu mwy cynrychioladol yn ysgolion Cymru, gosod nod benodol o wella amrywiaeth y gweithlu addysgu, yn ogystal â nodau eraill yn ymwneud â:

- Gwella profiadau dysgwyr ac athrawon Duon, Asiaidd a Lleifarifoedd Ethnig mewn ysgolion, trwy gymryd dull cynhwysol a gwrth-hiliol i addysgu a phrofiad ysgol;
- Ymgorffori dysgu prioffesiynol gwrth-hiliol; a
- Gwella dealltwriaeth am amrywiaeth a hiliaeth yn y sector addysg ehangach.

O ganlyniad, penodwyd Dr Charlotte Williams gan Lywodraeth Cymru i arwain y gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd. Cyhoeddwyd eu hadroddiad terfynol ym mis Mawrth 2021 ac roedd yn cynnwys darganfyddiadau oedd yn cynnwys:

---

11 https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52869234

12 Ogbonna, E (2020): Grŵp ymgynghorol BAME Covid-19 y Prif Weinidog. Adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol.

- Dewis ad hoc o adnoddau + tuedd adnoddau.
- Adnoddau'n wael i bob MDaPh (ac yn arbennig adnoddau dwyieithog).
- Problemau mynediad i ymarferwyr.
- Athrawon (a rhanddeiliaid eraill) angen ac yn gofyn am gyfarwyddyd ac enghreifftiau.
- Brwdfrtdedd yn uchel/hyder a gallu'n isel.
- Cyfyngderau '*cynefin*' …angen syud tuag at *Stori Cymru.*
- Diffyg amrywiaeth ethnig yn y gweithlu addysg ysgol (tystiolaeth CGA).
- Angen ymgorffori dysgu proffesiynol ansawdd uchel, parhaus.
- Angen 'dull ysgol gyfan' – amgylched dyr ysgol yn ogystal â chynnwys y dysgu.
- Yr angen am ymrywmiad cryfach gan randdeiliaid.

Arweiniodd y darganfyddiadau allweddol hyn wedyn at 51 argymhelliad allweddol. Roedd argymhellion penodol i'r Cwricwlwm yn cynnwys:

- Sicrhau bod adnoddau addas ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Datblygu canllaw adnoddau cychwynnol ar-lein sy'n rhestru a gwerthuso'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cyfraniadau a phrofiadau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gorffennol a'r presennol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.
- Cynhwysiant ar Hwb gyfarwyddyd i athrawon ar ddatblygu adnoddau addas a heriol ar themau amrywiaeth a lleiafrifol.
- Datblygu cyfres newydd o adnoddau datblygiad proffesiynol ddwyieithog sy'n darparu archwiliad manwl i amrywiaeth yng Nghymru yn y gorffennol a'r presennol.
- Gwella dosbarthiad a chategoreiddiad adnoddau ar Hwb er mwyn sicrhau ei bod yn haws i ymarferwyr addysgu a defnyddwyr eraill i lywio a darganfod adnoddau.

Ers 2021 rydym wedi gweld datblygiad DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol), sy'n cynnwys clymblaid deinamig o bartneriaid yn cynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Rhwydwaith BAMEed Cymru, CGA, Llenyddiaeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a chyfres o bartneriaid craidd o sefydliadau llawr gwlad annibynnol sydd â phrofiad byw a phroffesiynol amrywiol. Mae [13] DARPL yn cynnig

[13] https://darpl.org/partners

amrediad o adnoddau a chyfloedd dysgu proffesiynol i addysgwyr yng Nghymru. Cynhelir Cynhadledd cyntaf DARPL yn 2023.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion cymhleth sy'n ymwneud ag amrywiaeth a gwrth-hiliaeth mewn addysg, mae'n bwysig bod amrediad y terminoleg a ddefnyddiwyd yn ystod y drafodaeth yn eglur a dealladwy.

| Pwnc | Diffiniad |
|---|---|
| Gwrth-hiliaeth | Proses newid byw a chyson i ddileu hiliaeth unigol, sefydliadol a systemig. 1 Rhaid ei ystyried fel berf am fod gweithred ymhlyg. 2 |
| An-Hiliol | Gellir ei ddisgrifio fel as 'Hiliaeth Goddefol'. |
| Gwrth-orthrwm | Strategaethau, theorïau, a gweithredoedd sy'n herio anghyfartaleddau / anghyfiawnderau cymdeithasol a hnaesyddol sy'n rhan o'n systemau a sefydliadau ac yn caniatáu i rai grwpiau dominyddu dros eraill. 1 |
| Cymhwysedd Diwylliannol | Y gallu i ddefnyddio sgiliau meddwl yn feirniadol i ddehongli sut y mae gwerthoedd diwylliannol a chredoau'n dylanwadu ar ymddygiad ymwybodol ac anymwybodol; deall sut y gall, a sut y mae, anghyfartaledd yn cael ei fytholi trwy ymddygiadau cymdeithasoledig. 4 |
| Cyfartaledd | Mae cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod gan bob unigolyn gyfle cyfartal i fanteisio i'r eithaf ar eu bywydau a thalentau. Mae hefyd yn ymwneud â'r gred na ddylai fod gan neb gyfleoedd bywyd tlotach oherwydd dull eu geni, o ble y maent yn hanu, beth yw eucredoau, neu os oes ganddynt anabledd. 3 |
| Amrywiaeth | Ystyr hyn yw ystyried y gwahaniaethau rhwng pobl a phennu gwerth ar y gwahaniaethau hynny. Wrth ystyried amrywiaeth, rydym yn meddwl am gynrychiolaeth gan bobl o gefndiroedd, huniaethau, a galluoedd gwahanol. Mae hyn yn cynnwys nodweddion gweladwy ac anweladwy. 6 |
| Dadwladychiad | Mae dadwladychiad yn ymwneud â herio a newid cwricwlwm Euroganolog nad yw'n cydnabod treftadaeth, cyflawniadau a hanes pobl Affricanaidd ac Asiaidd ac yn adrodd hanes rhannol ac anghywir am Hanes Prydain/Cymru. Mae dadwladychiad mewn addysg yn ymestyn y cyfleoedd er mwyn cydnabod a chodi ymwybyddiaeth fyd-eang. 8 |

| | |
|---|---|
| Croestoriadol | "Lens, prism, i weld y modd y mae gwahanol fathau o anghydraddoldenau'n aml yn cydweithio a gwaethygu ei gilydd. Rydym yn tueddu i siarad am anghydraddoldeb hil fel rhywbeth gwahanol i anghydraddoldeb sy'n seiliedig ar rywedd, dosbarth, rhywioldeb neu statws mewnfudwyr. Yr hyn sy'n aml ar goll yw sut y mae rhai pobl yn destun y rhain i gyd, ac nid yw'r profiad ond yn swm ei rannau." 7 |
| Cynhwysiad | Yn dod yn ddilys ag unigolion a/neu grwpiau a eithriwyd yn draddodiadol i brosesau, gweithgareddau a gwneud penderfyniadau/polisi. 1 |
| Llythrennedd Hiliol | Cyfeirio at barodrwydd athrawon i ymwneud, empatheiddio a deall y ffyrdd y mae hil a hiliaeth yn gweithredu mewn addysg a'r gymdeithas ehangach. Rhaid i athrawon ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder i weithredu'r wybodaeth hyn i'w harferion addysgu bob dydd a'u rôl proffesiynol. 5 |
| Braint Gwyn | Absenoldeb medru byw gyda chanlyniadau hiliaeth. 5 |
| Breuder Gwyn | Cyflwr lle mae hyd yn oed lleiafswm o straen hiliol yn anioddefadwy, gan sbarduno ystod o symudiadau amddiffynnol fel dicter, ofn ac euogrwydd. Mae'r ymddygiadau hyn yn cynnwys ymresymiad, tawelwch a gadael y sefyllfa sy'n creu straen, sydd i gyd yn gweithio i ailsefydlu cydbwysedd gwyn. 4 |

**Ffynonellau:**


1 – Ymchwil Hanover (2020) "From Culturally Competent to Anti-Racist: Types and Impact of Race-Related Trainings".

2 – Hank VanPutten (2021) "When it comes to racism, are you a non or an anti?" TEDx LSSC https://www.youtube.com/watch?v=FuzZzp0u66I

3 – https://www.equalityhumanrights.com/en/secondary-education-resources/useful-information/understanding-equality

4 – Mayfield, V (2020) "Cultural Competence Now: 56 Exercises to Help Educators Understand and Challenge Bias, Racism and Privilege"

5 – Davis, S Haughton, C et al (2021) "The Recruitment and Retention of Black, Asiaidd and Minority Ethnic Teachers in Wales – A Qualitative Research Study"

6 – https://peopleinsight.co.uk/diversity-equity-inclusion-difference

7 – (Krenshaw) Steinmetz, K. 2020. She Coined the Term 'Intersectionality' Over 30 Years Ago. Here's What It Means to Her Today. Available at: https://time.com/5786710/kimberle-crenshaw-intersectionality

8 – OSHUN (oshuneducation.co.uk)

Rhan allweddol o'n dysgu a cham pwysig yn y daith tuag at gwricwlwm gwrth-hiliol a dod yn ysgol wrth-hiliol yw deall y gwahanol fathau o hiliaeth sy'n bodoli. Ceir amrywiadau ar y gwahanol fathau o hiliaeth sy'n bodoli ond isod ceir enghreifftiau o fathau gwahanol o hiliaeth.

| Pwnc | Diffiniad |
|---|---|
| Hiliaeth Unigol | Yn ymwneud â chredoau, rhagfarnau, a syniadau preifat sydd gan unigolion am oruchafiaeth pobl wyn ac israddoldeb y rhai nad ydynt yn wyn. |
| Hiliaeth Rhyngbersonol | Yn digwydd rhwng unigolion. Mae'n digwydd pan fo credoau unigolion yn effeithio neu'n dylanwadu ar eu rhyngweithiadau gydag eraill. |
| Hiliaeth Strwythurol | Yn ymwneud â thriniaeth, ploisïau ac arferion annheg, cyfleoedd anghyflawn ac effeithiau mewn mudiadau a sefydliadau, ar sail hil, sydd fel mater o drefn yn cynhyrchu deilliannau anghyfartal i bobl wyn a'r rhai nad ydynt yn wyn. |
| Hiliaeth sefydliadol | Yn ymwneud â system lle mae polisïau, arferion sefydliadol, cynrychioliadau diwylliannol, a phethau arferol eraill yn gweithio mewn ffyrdd amrywiol, a rhai atgyfnerthol yn aml, i fytholi anghydraddoldeb grŵp hiliol. Mae'n ymwneud ag effeithiau cronnol a chyfansawdd sawl ffactor yn cynnwys hanes, diwylliant, ideoleg, a rhyngweithiadau sefydliadau a pholisïau sy'n systematig yn breintio pobl wyn dros y rhai nad ydynt yn wyn. |

**Ffynhonnell:** "Anti-racist school leadership: making 'race' count in leadership preparation and development." Miller.P, (2021) Prifysgol Greenwich

# Cymhwysedd Diwylliannol: Di-hiliaeth i Wrth-hiliaeth

Llinyn allweddol i'w ddilyn wrth ystyried datblygiad dealltwriaeth cynyddol am wrth-hiliaeth yw'r rhyngweithiadau sy'n ymwneud â Chymhwysedd Diwylliannol, Di-hiliaeth a Gwrth-hiliaeth.


Gellir dadlau nad yw bod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau'n unig, ac felly'n gweithio, gweithredu a rhyngweithio mewn modd effeithiol, yn ddigon i ddifodi hiliaeth. Mae Gordon Pon (2009) yn dadlau, yng nghyd-destun gwaith yn Canada, bod cymhwysedd diwylliannol "yn anaml yn dadansoddi rôl gwynder

mewn gwaith cymdeithasol" a "thystiolaeth amdano yn y modd y mae'n ffurfio grwpiau diwylliannol eraill, gan mai gwynder yw'r safon a ddilynir i wahaniaethu diwylliannau".[14]

Ar y llaw arall, mae'n well gan Vernita Mayfield (2020) y term cymhwysedd diwylliannol yn hytrach nag addysg gwrth-hiliol, am ei fod yn "ymgorffori natur gynhwysfawr diwylliant" ac "mae diwylliant unigolyn yn gymhleth yn nhermau yr hyn y mae pobl yn ei ddysgu neu'n ei wrthod yn eu hamgylchedd, yn cynnwys ffactorau fel tuedd, hiliaeth, braint a hunaniaeth sydd ymhlyg." Un o'r pwyntiau allweddol y mae'n eu gwneud ynglŷn â'r pwnc hiliaeth yw nad yw'n golygu, am fod person yn wyn, nad oes yna angen am gymhwysedd diwylliannol.[15]

Y prif wahaniaeth rhwng cymhwysedd diwylliannol a gwrth-hiliaeth yw eu ffocws. Fel arfer, mae cymhwysedd diwylliannol yn ymwneud ag agweddau ac ymddygiadau'r unigolyn, ond mae gwrth-hiliaeth yn canolbwyntio ar hiliaeth systemig a sefydliadol. Gellir dadlau bod cymhwysedd diwylliannol yn tybio y gellir hyfforddi unigolion i ryngweithio'n effeithiol gyda phobl o ddiwylliannau gwahanol, ond nid yw o reidrwydd yn mynd i'r afael â'r dynameg grym gwaelodol sy'n creu gwahaniaethau diwylliannol. Mae gwrth-hiliaeth, ar y llaw arall, yn cydnabod bod anghyfartaledd hiliol yn ganlyniad i anghydbwyseddau grym hanesyddol a pharhaol, ac yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydbwyseddau hyn trwy newid systemig (Smith & Stewart, 2019).[16]

Ar 21ain Tachwedd, 2021 cynhaliodd Cyngor Cymru dros Addysg (CCA) webinar o'r enw "Symud o ymarfer di-hiliol i ymarfer gwrth-hiliol: hyrwyddo ecwiti hiliol mewn addysg". Yn ystod y webinar dangoswyd y llun isod fel animeiddiad a'i esboni gan Rachel Clarke yn ystod ei chyflwyniad.




---

[14] Pon, G. (2009). "Cultural Competency as New Racism: An Ontology of Forgetting". Journal of Progressive Human Services, 20:1, 59-71.

[15] Vernita Mayfield (2020) "Cultural Competency Now"

[16] Smith, M. A., & Stewart, D. (2019). Understanding anti-racism: A guide for the social work profession. Journal of Ethnic & Cultural Diversity in Social Work, 28(1), 1-14.

Yr hyn sydd ymhlyg yw’r angen i addysgwyr symud o sylweddoliad goddefol yn unig bod anghyfartaledd yn bodoli i gynnig cydymdeimlad a chefnogaeth a all arwain at rôl mwy gweithredol i ddiosg strwythurau cyfredol sy’n galluogi bytholi hiliaeth, yn ei holl ffyrdd amrywiol. Mewn geiriau eraill, rhaid i addysgwyr symud yn erbyn y palmant symudol er mwyn dileu anghyfartaledd ac anghyfiawnder.

## Cwricwlwm i Gymru a Gwrth-Hiliaeth

Bydd y Cwricwlwm Newydd i Gymru’n chwarae rhan allweddol i helpu i gyflawni nod y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol (2022), sef dileu hiliaeth yng Nghymru erbyn 2030. Yn y cwrticwlwm newydd ceir cynhwysiad eglur o amrywiaeth fel thema trawsdoriadol ar y cyd ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), Gyrfaoedd a Phrofiadau’n Ymwneud â Gwaith, Hawliau Dynol a chyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol. Yn fwy penodol, cynhwysir addysgu storïau am bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ym maes dysgu’r Dyniaethau gyda’r datganiad canlynol ‘o’r Hyn sy’n Bwysig’ – “Mae cymdeithasau dynol yn rhai cymhleth ac amrywiol, ac wedi eu ffurfio gan weithredoedd a chredoau dynol. Yma, bydd dysgwyr yn medru datblygu dealltwriaeth gyffredin am hanes, treftadaeth diwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a phersbectifau amrywiol eu hardal leol, Cymru a’r byd ehangach.”[17]

Felly, rhaid i ysgolion adeiladu i’w cwricwlwm strategaethau fydd nid yn unig yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am faterion sy’n ymwneud â hil ac amrywiaeth, ond hefyd yr afrau i ddysfwyr helpu i’w ddiosg a’i ddileu.

Er mwyn cefnogi ysgolion ac athrawon i weithredu’r rhan heriol hwn o’r cwricwlwm, lluniwyd Tîm DARPL (Dysgu Proffesiynaol Amrywaieth a Gwrth-hiliol - Diversity and Anti-Racist Professional Learning) yn 2022. Ers eiddechreuad mae DARPL wedi cynhyrchu cyfres o adnoddau, webinarau a gweithdai i gefnogi ystod lawn yr addysgwyr sy’n ymgorffori addysg blynyddoedd cynnar i addysg bellach; o gynorthwywyr addysgu i lywodraethwyr ysgol. Nod DARPL yw cyflwyno “dysgu proffesiynol ar gyfe ry rheiny sy’n gweithio mewn addysg i ddatblygu dealltwriaeth a datblygiad ymarfer gwrth-hiliol”.[18] Gellir dweud y bydd ymwybyddiaeth am, ac ymrwymiad gyda, DARPL yn fanteisiol tu hwnt i ysgolion os ydynt yn mynd i fabwysiadu cwricwlwm gwrth-hiliol.

## Datblygu Cwricwlwm Gwrth-hiliol

Mae ateb anghenion y Cwricwlwm newydd i Gymru ynglŷn ag amrywiaeth – a sicrhau bod ysgolion yn chwarae rôl allweddol i ddileu hiliaeth – yn her anferth. Nawr, bydd rhaid i ysgolion edrych ar ffyrdd y gallant ‘ddad-drefedigaethu’ eu cwricwlwm (yn unol â gofynion Cenedlaethol) ar y cyd â sichrau bod staff yn derbyn dysgu proffesiynol er mwyn symud o arferion di-hiliol i rai gwrth-hiliol. Cyn hyn gallai ysgolion fod wedi ‘ymdrin’ â gwrth-hiliaeth dim ond mewn gwasanaeth, gwers ABCh neu sylw bach i Fis Hanes y Duon. Nawr rhaid i ysgolion ymchwilio ffyrdd y gallant arallgyfeirio cynnwys yr addysg a dysgu er mwyn adlewyrchu ein cymdeithas amlddiwylliannol a galluogi dysgwyr i fod yn ‘ddinasyddion egwyddorol, gwybodus’ go iawn.

---

[17] https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters
[18] https://darpl.org

Nid yn unig y bydd rhaid i ysgolion edrych yn graffach ar yr hyn a addysgir, ond bydd rhaid ystyried hefyd y tueddiadau isymwybodol a breguster gwyn arfaethedig sy'n bodoli ymysg y rheiny sy'n ei addysgu.

"Bydd rhaid i ysgolion archwilio amrywiaeth a chynrychiolaeth ar draws y cwricwlwm; sut yr addygir testunau/pynciau trwy bersbectif gorllewinol ac ymgorffori ffyrdd o addysgu dysgwyr am hiliaeth a gwrth-hiliaeth yn y cwricwlwm". (Webinar CGA, 2021 – "Symud o ymarfer di-hiliol i wrth-hiliol: hyrwyddo ecwiti hiliol mewn addysg")

**Rôl Dad-drefedigaethu:**

Yn ôl yr actifydd addysg Sofia Akel o Brifysgol Metropolitan Llundain, mae dad-drefedigaethu addysg yn "cael ei ddeall yn aml fel y broses llew rydym yn ailfeddwl, ailfframio ac ailadeiladu'r cwricwla ac ymchwil sy'n cadw'r lens drefedigaethol, Ewrop ganolog. Ni ddylid ei gamgymryd am 'amrywiaeth,' am y gall amrywiaeth fodoli o hyd yn y tuedd gorllewinol hwn. Mae dad-drefedigaethu'n mynd ymhellach ac yn ddyfnach i herio hierarchaeth a monopoli sefydliadol ar wybodaeth, a symud o'r fframwaith gorllewinol".[19]

Dywedodd Martin Johnson a Melissa Mouthaan, ymchwilwyr yn Asesiad Caergrawnt, mewn erthygl ar wefan Ymddiriedolaeth Runnymeade Trust "yn addysg, mae dad-drefedigaethu'n ymwneud â chydnabod ac archwilio'n feirniadol ddylanwad yr etifeddiaeth drefedigaethol fel cyfanwaith, a'i is-adrannau amrywiol fel gwybodaeth a'r cwricwlwm."[20] Rhoddir hyn ar waith yn eglur pan rydym yn ystyried enghraifft Seland Newydd a'i symudiad tuag at wneud addysgu hanes Seland Newydd yn orfodol. Datblygwyd fframwaith ar gyfer addygsu hanes yn Seland Newydd trwy hyrwyddo'r syniad bod athrawon yn cydweithio gyda'r *iwi, hapū* (grŵp perthnasau, is-lwyth) lleol a'r *whanau* (grŵp y teulu) i gysylltu myfyrwyr gyda'r storïau a hanesion sy'n ymwneud â lleoliad yr ysgol.[21] Mae hyn yn tynnu cymariaethau ac yn gwahôdd cyffelybiaethau gyda'r cysyniad o *gynefin* yn y Cwricwlwm i Gymru.

Gan mai athrawon yw'r prif actorion i weithredu unrhyw broses dad-drefedigaethu, mae hyfforddi athrawon a datblygiad proffesiynol yn bwysig tu hwnt. Cyn y gellir ystyried unrhyw gynnwys cwricwlwm, rhaid yn gyntaf cael cyfnod o hunan-fyfyrdod a chefnogaeth ar godi ymwybyddiaeth ar ran athrawon. Dywed Johnson a Mouthaan bod y "gweithgaredd hwn yn heriol am ei bod yn ofynnol i athrawon adfyfyrio'n feirniadol eu barn a'u safle hw o'r byd – y pethau maent wedi eu datblygu trwy eu profiad o fyw". Mae'r addysgwyr Prydeinig Naheeda Maharasingam, Fred Oxby a Malcolm Richards, yn eu trafodaeth ar ddad-drefedigaethu ar sianel YouTube MA Education Consultancy, wedi amlygu'r pwysigrwydd o greu lleoedd diogel i gael sgyrsiau.

Mae'r her yn glir: er mwyn i ni ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm rhaid i ni nid yn unig archwilio cwricwlwm ein hysgol a sut y mae'n bytholi hiliaeth strwythurol ond myfyrio hefyd ar ein gogwydd a safle ni. Rhaid i ni wynebu ein hunain gyda'r cysyniad o fraint gwyn a mynd i'r afael ag eiddilwch gwyn er mwyn datblygu a chyflwyno  cwricwlwm gwrth-hiliol. Mae methu â mabwysiadu dull gwrth-hiliol yn golygu y gall

[19] https://eachother.org.uk/decolonising-the-curriculum-what-it-really-means

[20] https://www.runnymedetrust.org/blog/decolonising-the-curriculum-the-importance-of-teacher-training-and-development

[21] Davison, M. (2021). Teaching decolonised New Zealand history in secondary schools. *Historical Encounters, 8*(2), 90-106. https://doi.org/10.52289/hej8.205

ymddygiadau yr ystyrir eu bod yn hynaws ddal i effeithio'n negyddol ar bobl o gymunedau'r lleiafrifoedd ethnig. Dylem ddechrau craffu ar ein gogwydd unigol, a myfyrio ar sut y gallant effeithio ar aelodau cymunedau'r lleiafrifoedd ethnig. Mewn dyfyniad a briodolwyd i Desmond Tutu: "os ydych yn niwtral mewn sefyllfaoedd o anghyfiawnder, rydych wedi dewis ochr y gormeswr. Os yw eliffant wedi rhoi ei droed ar gynffon llygoden ac rydych yn dweud eich bod yn niwtral, ni fydd y llygoden yn gwerthfawrogi eich niwtraliaeth."

# Pecynnau Cymorth a Fframweithiau

Mae nifer o becynnau cymorth a fframweithiau ar gael a fyddai'n ddefnyddiol i gynorthwyo ysgolion i ddylunio cwricwlwm gwrth-hiliol. Maent yn cynnwys strategaeth wrth-hiliol fanwl a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 gan Gyngor Brighton a Hove oedd yn amlinellu (ymysg agweddau eraill), derminoleg, egwyddorion a gwerthoedd allweddol a strategaethau croestoriadol. Roedd y ddogfen hefyd yn amlinellu cyfres o 'Meysydd Newid' i ganolbwyntio arnynt. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys: 1) staff a recriwtio a chadw llywodraethwyr BAME; 2) Ymateb i ddigwyddiadau a materion; 3) Cefnogaeth i blant, disgyblio, rhieni a gofalwyr BAME 4) Hyfforddiant i staff a llywodraethwyr 5) Llythrennedd hiliol i blant/disgyblion; 6) Amrywiaethu a dad-drefedigaethu'r cwricwlwm 7) Gwerthoedd a pholisïau lleoliad ac ysgol.[22] Ar gyfer pob maes newid nodwyd deilliant hirdymor, cyfres o ddeilliannau tymor canolig ac amserlen o weithgareddau. Yn amlwg, mae'r ddogfen hon yn fwy addas i'r strwythur penodol a'r anghenion addysg mewn lleoliad penodol, Brighton yn yr achos hwn, ac nid yw'n seiliedig yn benodol ar ddyluniad y cwricwlwm, ond mae'n dal i roi syniadau ar yr hyn sy'n rhaid ei ystyried wrth ddatblygu dull ysgol gyfan.

Yn 2020 cyhoeddodd yr Undeb Addysg Genedlaethol (NEU) "Fframwaith ar gyfer datblygu dull gwrth-hiliol" a ddaeth i fodolaeth fel ymateb i'r adroddiad 'Rhwystrau - Barriers'[23], oedd yn seiliedig ar dystiolaeth dros 1,000 o athrawon Du am effaith hiliaeth yn eu gweithloeodd. Roedd y fframwaith yn amlygu canllaw defnyddiol ar iaith a'r heriau i rwystrau a mythau. Roedd y fframwaith yn nodi pum pennawd i weithio ohonynt. Roedd y rhain yn cynnwys: 1) Arweinyddiaeth; 2.) Addysgu a Dysgu; 3) Pŵe a Llais; 4) Lles a Pherthyn; 5) Cymuned. Mae pob pennwad yn cynnwys cyfres o gwestiynau mewn matrics dull archwilio. Roedd y ddogfen yn cynnwys hefyd adran ar 'Pŵer Iaith', a fyddai'n cyfeirbwynt defnyddiol yn y dyfodol.

Ym mis Gorffennaf 2021 roedd y Clymblaid dros Gyfartaledd a Hawliau Hiliol wedi cynhyrchu "Cyflwyniad i Ddatblygu Cwricwlwm Gwrth-hiliol: Canllaw i Athrawon yn yr Alban"[24] lle roeddent wedi nodi pedwar maes allweddol: 1) Dad-drefedigaethu'r cwricwlwm; 2) Adeiladu cymhwysedd rhyngddiwylliannol; 3) Lleihau hiliaeth, rhagfarn a gwahaniaethu; 4) Arweinyddiaeth ar Ddulliau Gwrth-hiliol i Ddatblygu'r Cwricwlwm. Bydd yr adnodd hwn a'r allwedd olaf ar arweinyddiaeth yn gyfeirbwynt defnyddiol am ei fod yn ystyried nifer o gwestiynau er ystyriaeth. Sut y gall Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr mewn addysg roi cefnogaeth ehangach i athrawon er mwyn iddynt deimlo'n hyderus wrth barhau â'r gwaith hwn? Sut allwch chi wneud lle i athrawon gyda bywydau prysur i archwilio'r dulliau sy'n rhaid eu cymryd? Pa feysydd

[22] Brighton & Hove Anti-racist education strategy (2022)

[23] Dr Zubaida Haque and Sian Elliott,"Visible and Invisible Barriers: The impact of Racism on BME Teachers" (2016) The Runnymeade Trust.

[24] Anti-racist curriculum development — CRER

eraill o brofiad ysgol sy'n effeithio ar bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig y mae'n rhaid i'r ysgol edrych arnynt, er mwyn paratoi a chreu'r amgylchedd cywir er mwyn ymgorffori dulliau gwrth-hiliol i ddatblygu'r cwricwlwm?

Mae'r Gwasanaethau Cefnogaeth Allweddol (www.schoolleaders.thekeysupport.com) wedi datblygu ystod o offer archwilio i ddeall y bylchau yn y ddarpariaeth yn nhermau deall cymuned yr ysgol, gwerthuso'r hyn y mae staff yn ei wybod eisoes am hiliaeth, gwella amrywiaeth y staff, cefnogi staff BAME, cynrychioli profiadau BAME (y tu allan i'r cwricwlwm). Maent hefyd wedi cyhoeddi archwiliadau cwricwlwm ar gyfer ysgolion Cynradd ac Uwchradd ynghŷd â thempled cynllun Gwrth-Hiliaeth. Mae'r archwiliad cwricwlwm yn arbennig o ddefnyddiol am ei fod yn nodi'r cwestiynau allweddol ar gyfer pynciau unigol ac yn rhoi syniadau awgrymedig ar gyfer datblygu os mai 'ie' neu 'na' yw'r ateb i'r cwestiwn. [25]

Mae'r ddogfen a amlygir yma, yn ogystal ag eraill oedd dan ystyriaeth, yn dangos y cyswllt cynhenid rhwng dylunio cwricwlwm gwrth-hiliol a'i le yn null yr ysgol gyfan i wrth-hiliaeth. Mae'n amlwg na ellir datblygu cwricwlwm gwrth-hiliol mewn arwahanrwydd. Rhaid cael dull ysgol gyfan i wrth-hiliaeth sy'n ymwneud â phob agwedd o ddarpariaeth ac yn cynnwys ystyriaethau'r rhanddeiliaid i gyd.

I grynhoi, mae'r gweithredoedd allweddol i'w cymryd wrth ddatblygu cwricwlwm gwrth-hiliol yn cynnwys:

1) Trafodaeth gychwynnol ymysg yr uwch dîm arwain ar resymwaith a dull.
2) Ymglymiad gydag Arweinwyr MDaPh a staff ar resymwaith a dull
3) Archwiliad o gynlluniau gwaith MDaPh.
4) Dysgu Proffesiynol Gwrth-hiliaeth pob rhanddeiliaid gyda'r ffocws yn dibynnu ar rolau yn yr ysgol (e.e. llywodraethwyr, dysgwyr, rhieni).
5) Ymglymiad gyda darparwyr allanol (cegnogaeth gyda: dad-drefedigaethu'r cwricwlwm).
6) Rhwydweithio gyda phartneriaid allanol arfaethedig i gael at adnoddau, gwybodaeth a dealltwriaeth pwnc penodol.

Bydd rhaid ffurfio cynllun gweithredu ar gyfer y gweithredoedd hyn byddant ar y cyd â gweithgareddau ysgol gyfan eraill fel adolygu polisïau, archwiliadau recriwtio ac ymrywniadau rhanddeiliaid. Bydd cynllunio cwricwlwm gwrth-hiliol yn ffurfio rhan o ddull ysgol gyfan at wrth-hiliaeth.

Er mai ffocws y gwaith hwn ac unrhyw gynllunio gwethredu'r dyfodol yn Ysgol Calon Cymru yw datblygu gwrth-hiliaeth mewn ysgolion, rhaid i ni hefyd ystyried gwrth-hiliaeth fel rhan o'r themau trosfwaol sef 'Cynhwysol' a 'Cydraddoldeb' yn ogystal ag 'Amrywiaeth' yn y Cwricwlwm i Gymru. Er bod rhaid gwneud llawer o waith a'r angen am lefel uchel o ffocws i ddatblygu cwricwlwm gwrth-hiliol, dead-drefedigaethu'r cwricwlwm, rhaid i ni hefyd beidio â cholli golwg ar agweddau eraill o amrywiaeth a chydraddoldeb. Bydd lefel o ymwybyddiaeth ynglŷn â chroestoriadedd, hunaniaeth rhywedd, crefydd, anabledd a rhywioldeb wedi eu cynnwys yn y thema croesdoriadol hwn.

---

[25] https://schoolleaders.thekeysupport.com/curriculum-and-learning/curriculum-guidance-all-phases/structuring-curriculum/anti-racism-how-review-and-re-frame-your-curriculum/?marker=full-search-q-anti-racist%20audit-result-20

**Casgliad**

Ar sail adolygiad o'r data a gasglwyd ar amrywiaeth gweithlu Ysgol Calon Cymru, gyda'r staff i gyd gellir dadlau bod corff mono-ethnig o staff yn bodoli. Mae sawl diffiniad yn bodoli i grynhoi'r gair 'mono-ethnigrwydd'. Ceir un enghraifft gan Kymlicka (1995, p.64) sy'n dweud bod mono-ethnigrwydd yn "cyfeirio at gymdeithas a luniwyd o unigolion o un grŵp ethnig"[26] Yn yr un modd, gellir disgrifio amrywiaeth dysgwyr Ysgol Calon Cymru fel mono-ethnig hefyd wrth ystyried y diffiniad a roddwyd gerbron gan Teitelbaum a Winter (2018, t. 231) sy'n dweud mai "Mono-ethnigrwydd yw nodwedd cymdeithas lle mae un grŵp ethnig yn ffurfio mwyafrif neu segment trechol o'r boblogaeth" am fod 95.9% o'r dysgwyr yn dweud eu bod yn 'Wyn Prydeinig'.

Gallai'r lefel presennol hwn o fono-ethnigrwydd yn ein hysgol a chymuned olygu bod gan ein dysgwyr llai o ymwybyddiaeth a dealltywriaeth am ddiwylliannau gwahanol. Ychydig iawn o leisiau lleiafriol ethnig a glywir, wynebau a welir a phrofiadau a rennir. Mae yna berygl y gall bydolwg cyfyngedig fod yn gynhenid ymysg dysgwyr oherwydd diffyg cyfleoedd i gymysgu ac ynmwneud â phobl ifanc o gefndiroedd gwahanol. Mae hyn yn arbennig o wir os yw cynnwys y cwricwlwm yn gul o ran ei rychwant ac heb amrywiaeth ynddo. Mae'r cysyniad o 'arallrwydd' yn cael ei fytholi a'i uchafu fel gweld pobl o gefndir ethnig lleiafrifol heb ei normaleiddio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r mater o amrywiaeth y gweithlu ac maent wedi cymryd camau i annog recriwtio athrawon o leiafrifoedd ethnig. Yr her, felly, yw i randdeilaiid amrywiol (h.y. darparwyr AGA, ysgolion, Gyrtfaoedd Cymru ac awdurdodau lleol) i weithredu'r argymhellion allweddol yn effeithiol a gwneud effaith pendant ar ddiffyg amrywiaeth yn y gweithlu addysg. Bydd yn ddiddorol gweld os a phryd yr ymgymeriri ag unrhyw adolygiadau er mwyn mesur unrhyw gynnydd ar y gweithredoedd a nodwyd.

Wrth ystyried yr ymchwil ar amrywiaeth y gweithlu, mae'n amlwg y gall Ysgol Calon Cymru gymryd camau pendant er mwyn cynyddu lefel yr amrywiaeth yn ein gweithlu ni. Amlygir y rhain yn yr argynhellion isod gyda mwy o fanylion i'w cael mewn cynllun gweithredu strategol.

Mae'r project hwn wedi crisialu'r pwyntiau allweddol a godwyd gan gyfres o adroddiadau ar amrywiaeth y gweithlu a gwrth-hiliaieth, wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n amlwg bod gwrth-hiliaeth mewn addysg yn uchel ar yr agenda  chymerwyd camau i godi ymwybyddiaeth am ddatblygu dull gwrth-hiliol mewn lleoliadau addysg. Mae cefnogaeth yn bodoli trwy Dîm DARPL a gellir casglu y gall Ysgol Calon Cymru gymryd camau penodol i fynd i'r afael â gwrth-hiliaeth trwy weithredoedd ysgol gyfan, yn ogystal â ffurfio cwricwlwm dad-drefedigaethol.

Yr hyn y gellir ei ddeall yw y byddai'n gwneud synnwyr i symud tuag at gwricwlwm gwrth-hiliol ar y cyd â dull ysgol gyfan ehangach. Byddai'n annirnadwy pe na bai'r math hwn o ail-ddrafftio cynnwys y cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan weithredoedd eraill y byddai'r ysgol yn eu mabwysiadu. Ni ellir cyflawni symudiadau effeithiol tuag at wrth-hiliaeth trwy strategaethau a gweithredoedd ar wahân yn unig.

[26] Kymlicka, W. (1995). Multicultural citizenship: A liberal theory of minority rights. Oxford University Press.

Yr agwedd fwyaf trawiadol i'w hystyried yw lefel y dysgu a disgwrs proffesiynol sydd ei angen i gaffael dealltwriaeth a gweithrediad llawn y terminoleg allweddol. Bydd rhaid mynd i'r afael ag ymadroddion fel 'eiddilwch gwyn', 'cymhwysedd diwylliannol' a 'di-hiliol' cyn dechrau ar unrhyw gamau tuag at ysgol wrth-hiliol. Bydd rhaid cael sgyrsiau anodd, hunan-fyfyrio heriol a newid meddylfryd ymysg y gweithlu os ydym i lwyddo.

Mae'r project ymchwil hwn wedi amlygu'r lefel ymwybyddiaeth ynglŷn â diffyg amrywiaeth y gweithlu addysg ac mae wedi crynhoi'r man yr ydym ni, ar lefel Genedlaethol, arni o ran cymryd camau i ddileu hiliaeth yn ein hysgolion. Gwnaethpwyd llawer o waith i ganfod y materion allweddol, ac arweiniodd hyn at bentwr o argymhellion a chamau gweithredu. Nawr, rhaid i'r rhanddeiliaid i gyd ddechrau gweithredu camau perthnasol a rhaid i Ysgol Calon Cymru ddechrau ar ei siwrnai tuag at fod yn ysgol wrth-hiliol.

## Gwerthuso

Mae'r ymchwiliad hwn wedi amlygu'r mater a godwyd gan nifer o adroddiadau ac astudiaethau allweddol. Goleubwyntiwyd y materion sy'n bodoli yn addysg Cymru ac mae wedi dangos ffocws clir ar y sefyllfa yn Ysgol Calon Cymru.

Rwy'n gymharol fodlon fy mod wedi ateb nodau ac amcanion y prosiect hwn. Yn sicr, rwy'n fwy gwybodus a hyderus i arwain yr ysgol tuag at wrth-hiliaeth. Mae'r ymchwil wedi fy ngalluogi i roi gerbron cyfres o argymhellion fydd yn rhoi symbyliad i drafodaeth ar lefel Uwch arwain a dechrau llywio Ysgol Calon Cymru i weithredu.

Wedi meddwl, un peth amlwg a adawyd allan o'm dulliau ymchwil oedd cysylltu â rhieni a dysgwyr o gefndir lleiafrifol ethnig. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol tu hwnt i ddysgu am brofiadau byw y rhanddeiliaid hynny er mwyn caffael mewnwelediad pellach a hysbysu cynllunio'r dyfodol.

Byddai ymchwil i ganfyddiadau, agweddau a phryderon y staff cyfredol ynglŷn â gwrth-hiliaeth wedi bod yn ddefnyddiol i ddeall y lefelau ymwybyddiaeth cyfredol a cgael mwy o synnwyr o'r dysgu proffesiynol sydd ei angen. Byddem wedi medru defnyddio tystiolaeth o'r ymchwil hwn fel rhan o waelodlin ar gyfer gwerthusiadau'r dyfodol.

Byddai wedi bod yn ddefnyddiol cynnwys yn y project arolwg o broses recriwtio'r ysgol a'r awdurdod lleol i weld os yw cynnwys y dogfennau hyn yn ffafriol i ddenu athrawon o egfndir lleiafrifol ethnig. Byddai trosolwg o bolisïau'r ysgol, yn arbennig y Cynllun Cydraddoldeb cyfredol, hefyd wedi rhoi mewnwelediad pellach i safle cyfredol yr ysgol. Ond, bydd y gofynion hyn wedi eu diwallu yn y rhestr o argymhellion.

Cafwyd peth anhawster i gasglu'r data lle defnyddiwyd categorïau gwahanol i gynrychioli'r rheiny o gefndir lleiafrifol ethnig. Gallai hyd fod wedi arwain at gyflwyno data anghywir yn yr adroddiad hwn. Ond, gellir dadlau nad yw unrhyw anghysondeb arfaethedig yn rhoi argraff gamarweiniol allweddol o ddemograffeg cyfredol yr ardaloedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Yn ystod y project hwn darganfuais gyfoeth enfawr o lenyddiaeth, gwefannau, cynnwys fideo a deunydd dysgu proffesiynol ar y pwnc hwn. Roedd hyn, wrth gwrs, yn ardderchog ond braidd yn frawychus hefyd ac ar adegau roeddwn yn gwyro oddi ar y pwnc dan sylw. Roedd crynhoi safbwyntiau gwahanol a chrisialu gwybodaeth allweddol yn heriol. Ar y llaw arall, cefais anhawster i ddarganfod deunydd ar effaith arfaethedig y gweithlu mono-ethnig a rfwyafrif y dysgwyr gwyn. Byddai'n ddiddorol gwybod pa effaith peidio â chael unrhyw staff o gefndir ethnig ar ddysgwyr gwyn a dysgwyr di-wyn.

Yn ystod y project hwn rwyf wedi dysgu llawer am y gweithredoedd a meddylfryd cyfredol sy'n bodoli yng Nghymru ar sut i ddatblygu dulliau gwrth-hiliol, adeiladu cwricwlwm dad-drefedigaethol a chynyddu nifer yr athrawon o gefndir lleiafriol ethnig. Mae bod yn ymwybodol o DARPL ac ymgysylltu â'u rhaglen o ddysgu proffesiynol wedi bod yn fewnweledol ac wedi fy ngalluogi i ymgysylltu ag arbenigwyr blaenlalw yn y maes hwn. Rwyf wedi mwynhau ymchwilio a darganfod dogfennau ymchwil a'r broses o ddethol gwybodaeth perthnasol. Mae cyfarfod goleuwyr fel Chantelle Haughton, Sue Davis a Rachel Clarke wedi bod yn ysbrydoledig.

Mae’r project ymchwil hwn wedi fy ngalluogi i gysylltu â hen ffrind, cyn athro ac ymgynghorydd i lywodraeth Seland Newydd, sydd yn arbenigwr cwricwlwm i ddarparwr e-lddysgu rhyngwladol. Roedd ynglŷn ag addysgu hanes yn Seland Newydd  a’r tebygrwydd sy’n bodoli gyda chysyniad *cynefin* a’r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae potensial i ymgymryd yn y dyfodol â gwaith gyda’r pwnc hwn, os na chafwyd camau at hyn yn barod.

Fel bob amser, roedd rheoli amser a ffitio’r prosiect ymchwil hwn i weithgareddau eraill yn her. Wedi trafod y syniad i ddechrau gyda phennaeth yr ysgol yn ystod gwanwyn 2022, dechreuwyd o ddifrif ar y project yn ystod yr haf cynt. Ond, ailstrwythurwyd tîm arwain yr ysgol ac arweiniodd hyn at ddyrchafiad ac roedd hyn, yn ogystal ag arolygiad yr ysgol a symud i arwain campws gwahanol, wedi golygu bob y project, i bob pwrpas, wedi sefyll yn ei unfan yn ystod hydref 2022.

Rhaid nodi bod ymgymryd â’r project hwn wedi bod yn bleserus iawn ac wedi fy ngalluogi i ddysgu llawer am bwnc lle’r oedd gennyf gwybodaeth a phrofiad cyfyngedig. Mae wedi rhoi mewnwelediad i fi a’r cyfle i arwain ar lywio cymuned yr ysgol tuag at ddull gwrth-hiliol. Rwy’n rhagweld y bydd gwaith y dyfodol ar hyn yn digwydd yn yr hirdymor a gobeithir y bydd Ysgol Calon Cymru yn helpu mewn rhyw ffordd i gyfrannu at Gymru fel gwlad gwrth-hiliol.

## Argymhellion

Ar sail y wybodaeth a gasglwyd a sefyllfa gyfredol Ysgol Calon Cymru o ran cynyddu amrywiaeth y gweithlu a datblygiad y cwricwlwm, awgrymwyd yr argymhellion canlynol:

**Strategol**

1.) Datblygu cynllun strategol gwrth-hiliol gyda gweithredoedd graddfeydd amser a fyddai'n cysylltu â pholisi ysgol wrth-hiliol.
2.) Cymathiad y camau allweddol o'r cynllun strategol gwrth-hiliol i ddogfennau gwella'r ysgol diweddaraf.
3.) Adolygu Cynllun Cydraddoldeb yr Ysgol ac unrhyw bolisi recriwtio perthnasol.
4.) Cynnal archwiliad rheolaidd ar ddull gwrth-hiliol yr ysgol gyfan gan ddefnyddio adnoddau o wefan y Gefnogaeth Allweddol.
5.) Dewis Llywodraethwr Amrywiaeth cyswllt.

**Ymrywmiad**

6.) Ymrwymiad gyda'r awdurdod lleol, darparwyr AGA a phartneriaid eraill (e.e. DARPL, Rhwydwaith Cymru BAMEd) i ddenu gweithlu mwy amrywiol yn Ysgol Calon Cymru.
7.) Ymrwymiad gyda rhieni a dysgwyr ar brofiadau byw yn Ysgol Calon Cymru, er mwyn ffurfio gweithgor ar ddatblygu gwrth-hiliaeth.

**Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol**

8.) Cynllunio i Wella – tystiolaeth am addysgeg wrth-hiliol yn y cynlluniau gwella adrannau.
9.) Ymgymryd ag adolygiad o gynnwys cwricwlwm i ganfod cyfleoedd i ddad-drefedigaethu'r cwricwlwm ac edafu dull gwrth-hiliol yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad.
10.) Cynllunio sesiynau dysgu proffesiynol parhaus ar gyfer staff (gyda sesiwn gychwynnol i uwch arweinwyr) yn cynnwys arwyddbostio parhaus i ddeunydd perthnasol e.e. gwefan DARPL.
11.) Monitro a gwerthuso cyrhaeddiad dysgwyr BAME ar bob pwynt cynnydd.
12.) Ffurfioli a gwneud yn hygyrch y prosesau tu ôl i adrodd am ddigwyddiadau hiliol.

**Cyfleoedd**

13.) Chwilio'n weithredol am rwydweithiau a pharneriaethau addysgol rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn parhau i ddatblygu dealltwriaeth a rhannu arfer dda.
14.) Cydweithio gyda sefydliadau, busnesau, grwpiau cymunedol ac unigolion lleol i ddatblygu ymhellach ac ymrwymo i waith cydweithredol.

## Llyfryddiaeth


Cynhadledd Datblygu Gyrfa BAMEed (2021). "Inclusive recruitment – what is it and what role to governing bodies play?" https://youtu.be/vtXYzfctIDU

Gwefan Newyddion BBC (2020) "George Floyd: Hundreds protest outside Cardiff Castle" – www.bbc.co.uk/news/uk-wales

Prifysgol Bangor (2022) "CaBan Bangor Initial Teacher Education (ITE) Black, Asiaidd and Minority Ethnic Recruitment and Retention Plan"

www.blackleadershipgroup.com

Dstrategaeth Addysg Gwrth-hiliol Brighton & Hove (2022)

Partneriaeth Caerdydd (2021) "Cardiff Partnership Initial Teacher Education Black, Asiaidd and Minority Ethnic Recruitment and Retention Plan"

Coalition for Racial Equality & Rights (2021) "An Introduction to Anti-Racist Curriculum Development: A Guide for Teachers in Scotland"

Blair, C. (2021) "Cultural Inclusivity in a Predominantly White District" Northeastern University, Boston, USA

www.DARPL.org

Davis et al (2021), "The Recruitment and Retention of Black, Asiaidd and Minority Ethnic Teachers in Wales – A Qualitative Research Study", Cardiff Metropolitan University.

Davison, M. (2021). Teaching decolonised New Zealand history in secondary schools. *Historical Encounters, 8*(2), 90-106

DfES, (2018) "Statement of intent on the diversity of the teaching workforce – setting the case for a diverse teaching workforce"

www.eachother.org.uk/decolonising-the-curriculum-what-it-really-means

www.equalityhumanrights.com/en/secondary-education-resources/useful-information/understanding-equality

Ferguson, R (2003). "Teachers' Perceptions and Expectations and the Black-White Test Score Gap". Urban Education

Goldhaber, Theobald and Thien (2019) "The Theoretical and Empirical Arguments for Diversifying the Teacher Workforce: A Review of the Evidence" University of Washington, Bothell.

Haque, Dr Z and Elliott, S. (2016). "Visible and Invisible Barriers: The impact of Racism on BME Teachers" The Runnymeade Trust.

Ymchwil Hanover (2020) "From Culturally Competent to Anti-Racist: Types and Impact of Race-Related Trainings"

www.hwb.gov.wales/curriculum-for-wales

Johnson, M and Mouthaan, M. (2021) Blog post on www.runnymeadetrust.org "Decolonising the curriculum: The importance of teacher training and development".

Khalifa, M. (2018). "Culturally Responsive Pedagogy in Action: Building a Bridge Between Research and Practice". Journal of Education for Students Placed at Risk.

https://kappanonline.org/why-we-need-diverse-teacher-workforce-segregation-goldhaber-theobald-tien

Kymlicka, W. (1995). "Multicultural citizenship: A liberal theory of minority rights". Oxford University Press.

Lester. B & Price,R (2021), "Black, Asiaidd and Minority Ethnic Representation Within the School Workforce in Wales Phase 3 report" Education Workforce Council.

Miller.P, (2021). "Anti-racist school leadership: making 'race' count in leadership preparation and development." Greenwich University

Mayfield, V (2020) "Cultural Competence Now: 56 Exercises to Help Educators Understand and Challenge Bias, Racism and Privilege" ASCD, Virginia, USA

Yr Undeb Addysg Genedlaethol (2020). "Framework for developing an anti-racist approach".

Undeb Genedlaethol yr Athrawon. (2018). "Representation of Black, Asiaidd and Minority Ethnic (BAME) teachers in the profession: A qualitative study".

OECD (2018), "Developing Schools as Learning Organisations in Wales, Implementing Education Policies", OECD Publishing, Paris.

Ogbonna, E (2020) "First Minister's BAME Covid-19 advisory group. Report of the socio-economic sub-group"

www.oshuneducation.co.uk

www.peopleinsight.co.uk/diversity-equity-inclusion-difference

Phillips, K.W. (2014) "How Diversity Makes Us Smarter" The Scientific American 311, 4, 42-47.

Pon, G. (2009). "Cultural Competency as New Racism: An Ontology of Forgetting". Journal of Progressive Human Services, 20:1, 59-71.

Smith, M. A., & Stewart, D. (2019). "Understanding Anti-Racism Education: Transformative Learning for Social Justice". Routledge.

www.schoolleaders.thekeysupport.com/curriculum-and-learning

Steinmetz, K. (2020). Time Magazine online article. "She Coined the Term 'Intersectionality' Over 30 Years Ago. Here's What It Means to Her Today". Available at: https://time.com/5786710/kimberle-crenshaw-intersectionality

Teitelbaum, M. S., & Winter, J. M. (2018). "Population and development: A critical introduction". John Wiley & Sons.

Universities UK (2020) "Black, Asiaidd and Minority Ethnic Student Attainment At UK Universities: #Closing the Gap"

VanPutten. H. (2021) "When it comes to racism, are you a non or an anti?" TEDx LSSC https://www.youtube.com/watch?v=FuzZzp0u66I

Llywodraeth Cymru (2021) "Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon"

Llywodraeth Cymru (2022) "Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol"

Llywodraeth Cymru (2023) "Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol: Asesiad Effaith Integredig".

Williams. C Yr Athro (2021), "Cymunedau, Cyfraniadau, a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd. Adroddiad Terfynol y Gweithgor."

# Atodiadau

## Atodiad 1

### “Cynllun Recriwtio Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon”

**Llywodraeth Cymru – Crynodeb o Gamau Gweithredu**

| Cam Gweithredu | Dyddiad Targed |
|---|---|
| Penodi cynrychiolydd o grŵp ethnig lleiafrifol i’r TRRAB. | Cwblhawyd |
| Cyhoeddi cyflwyno cynllun cymhelliant ar gyfer athrawon sy’n fyfyrwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol, gan gynnwys athrawon cyfrwng Cymraeg. | Hydref 2021 |
| Fel rhan o adolygiad cyffredinol o Feini Prawf Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon, edrych ar gynyddu gwelededd materion yn ymwneud â hil a chynwysoldeb. | Rhagfyr 2022 |
| Cynnwys mewn dyraniadau Addysg Gychwynnol i Athrawon ofyniad i Bartneriaethau weithio tuag at ganran o fyfyrwyr o gefndir ethnig lleiafrifol. | Tachwedd 2021 |
| Bydd gweithgareddau marchnata yn cynnwys gwaith ymgyrchu wedi’i dargedu, gyda’r nod o ddenu unigolion o grwpiau ethnig lleiafrifol i’r proffesiwn addysgu. | Rhagfyr 2021 |
| Lansio gwobr Betty Campbell (MBE) am hyrwyddo cyfraniadau a safbwyntiau cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | Hydref 2021 |
| Cydweithio’n barhaus â grwpiau rhanddeiliaid i barhau i ddatblygu camau nesaf y cynllun. | Parhaus |
| Gweithio gyda Gyrfaoedd Cymru i fwyhau gweithgareddau’n ymwneud ag addysg yn yr ysgolion. | Maqwrth |

**Partneriaethau AGA – Crynodeb o'r Camau Gweithredu**

| Cam Gweithredu | Dyddiad Targed |
|---|---|
| Datblygu a chyhoeddi cynlluniau recriwtio yn benodol i gynyddu nifer yr ymgeiswyr o grwpiau ethnig lleiafrifol ar gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon, gan gynnwys cyrsiau cyfrwng Cymrae | Gorffennaf 2022 |
| Adolygu prosesau recriwtio presennol a threfniadau'r panel cyfweld. | Rhagfyr 2021 |
| Fel rhan o'r cynllun recriwtio, adolygu a gwella'r trefniadau cymorth ar gyfer myfyrwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol ar bob cam o'r broses ymgeisio ac astudio. | Mawrth 2022 |
| Adolygu'r modd y cymhwysir gofynion y meini prawf achredu mewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes a gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, Estyn a grwpiau rhanddeiliaid i gryfhau a datblygu. | Mawrth 2022 |
| Gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu prosesau adrodd ar geisiadau gan unigolion o grwpiau ethnig lleiafrifol a derbyniadau ar gyrsiau fel rhan o'r broses adrodd fisol barhaus. | Yn fisol |

**Cyngor y Gweithlu Addysg – Crynodeb o'r Camau Gweithredu**

| Cam Gweithredu | Dyddiad Targed |
|---|---|
| Parhau i gasglu data ar y gweithlu presennol a gweithio gyda phartneriaid i annog mwy o unigolion i nodi eu hunaniaet | Yn flynyddol |
| Gweithio gyda Phartneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon i ddatblygu prosesau adrodd ar geisiadau a derbyniadau ar gyfer cyrsiau mewn perthynas â phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol, fel rhan o'r broses adrodd fisol barhaus. | Yn fisol |
| Gweithio gydag Estyn, Partneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon a rhanddeiliaid i gryfhau a datblygu'r broses o gymhwyso gofynion y meini prawf achredu mewn rhaglenni presennol. | Mawrth 2022 |
| Parhau i ddatblygu gwasanaethau eiriolaeth, yn enwedig mewn perthynas â chynrychiolaeth o grwpiau ethnig lleiafrifol, gan gynnwys cynrychiolaeth cyfrwng Cymraeg. | Gweminar wedi'i chadarnhau ar gyfer 25 Tachwedd 2021. Bydd y gweithdai'n parhau yn gynnar yn 2022. |

| | |
|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod deunydd hyrwyddo ar wefan Addysgwyr Cymru yn cynrychioli cymunedau ethnig lleiafrifol. | Yn parhau |
| Sicrhau bod Addysgwyr Cymru yn darparu mynediad clir at ganllawiau a gwybodaeth i unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol wrth i adnoddau ddod ar gael. | Yn parhau |

**Estyn – Crynodeb o'r Camau Gweithredu**

| Cam Gweithredu | Dyddiad Targed |
|---|---|
| Adolygu fframweithiau arolygu i sicrhau bod profiadau myfyrwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon yn cael eu hasesu. | Ionawr 2022 |
| Gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, Partneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon a rhanddeiliaid i gryfhau a datblygu'r broses o gymhwyso gofynion y meini prawf achredu mewn rhaglenni presennol. | Mawrth 2022 |

# Atodiad 2

Dau ddyfyniad o dempled archwilio Cwricwlwm Gwrth-hiliol a luniwyd gan y "Gwasanaeth Cefnogaeth Allweddol'.

**Saesneg:**

Y cam cyntaf i'w gymryd yw gwella amrywiaeth yn eich llyfrau ysgol. Mae'r erthygl hon yn cynnwys rhestr wirio (sy'n debygi'r offeryn adolygu hwn) i'ch helpu i adolygu a gwella amrywiaqeth yn llyfrau ffuglen a ffeithiol eich ysgol. Defnyddiwch y rhestr wirio hon ar gyfer y llyfrau sydd ar eich cwricwlwm Saesneg, adilynwch hyn gyda'r cwestiynau isod.

Arddangoswch y cwestiynau canlynol yn eich ystafelloedd dosbarth Saesneg (naill ai fel poster ar y wal neu ar y bwrdd gwyn drwy'r adeg) er mwyn atgoffa staff a disgyblion i ofyn i'w hunain:

- Pwy sy'n ysgrifennu'r storïau?
- Pwy sy'n elwa o'r storïau?
- Pwy sydd ar goll o'r storïau?

| | |
|---|---|
| Edrychwch ar y grwpiau ethnig sy'n ffurfio eich cymuned ysgol. Ydy'r ethnigrwydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cymeriadau ac awduron rydych yn eu hastudio? Ydy'r ethnigrwydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn ymweliadau gan awduron, neu arddangosfeydd am amduron o gwmpas yr ysgol? | **Os nad yw:**<br>● Lle'n bosibl, dylid alewyrchu ethnigrwydd y disgyblion eu hunain a'r rheiny yn eu teuluoedd a chymunedau yn y cymeriadau ac awduron rydych yn eu haddysgu, yn ogystal â thrwy ymweliadau gan awduron ac arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol.<br>● Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod eich disgyblion yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn y cwricwlwm, ond mae'n bwysig cofio hefyd bod llenyddiaeth yn amrywiol iawn. Dylai eich cwricwlwm Saesneg adlewyrchu hyn, beth bynnag yw cyd-destun eich ysgol. |
| Yn y llyfrau ar eich cwricwlwm, ydy cymeriadau BAME yn cael eu diffinio yn ôl eu hil, ymdrech neu "arwahanrwydd"? | **Os ydynt:**<br>● Does dim rhaid i chi dynnu'r llyfrau hyn o'ch cwricwlwm, ond dylech dynnu sylw at broblem hyn, ac annog disgyblion i herio'r portreadau hyn, e.e. pam mae Crooks yn is-gymeriad yn 'Of Mice and Men?' Pam na allai ef fod yn brif gymeriad? |

| | |
|---|---|
| | ● Er enghraifft, os ydych yn astudio 'Of Mice and Men', gallai'r disgyblion ysgrifennu gofnodion dyddiadur o safbwynt Crooks, er mwyn rhoi llais iddo a chreu ei stori. |
| Ydy'r llyfrau ar eich cwricwlwm yn atgyfnerthu naratif yr 'achubwr gwyn' (lle mae cymeriadau gwyn yn helpu neu'n 'achub' cymderiadau di-wyn mewn modd hunan-wasanaethu)? | **Os ydynt:**<br>● Unwaith eto, does dim rhaid i chi dynnu'r llyfrau hyn o'ch cwricwlwm, ond dylech drafod gyda'r disgyblion pam y mae trosiad yr 'achubwr gwyn' yn broblem a'u hannog i'w herio.<br>● Os mai gweithredu naratif yr 'achubwr gwyn' y mae'r unig lyfrau ar eich cwricwlwm sy'n ymdrin yn benodol â hil (e.e. *To Kill a Mockingbird*, *The Help*), ystyriwch ei gyfnewid gyda llyfr nad yw'n gwneud hyn (e.e. *The Colour Purple* gan Alice Walker). |
| Ydych chi'n dathlu hanes cyfoethog llenyddiaeth a barddoniaeth o ddiwylliannau gwahanol? Ydych chi'n archwilio dylanwad awduron a beirdd o bedwar ban byd? | **Os nad ydynt:**<br>● Dylech gynnwys awduron o bedwar ban byd yn eich cwricwlwm os medrwch, neu gallech drafod y dylanwad gawsant ar lenyddiaeth, mewn perthynas â'r awduron rydych yn eu hastudio.<br>● Er enghraifft, siaradwch am Rabindranath Tagore (awdur Bengali a enillodd Wobr Nobel yn 1913), Rumi (bardd Persaidd enwog o'r 13eg ganrif), Chimamanda Ngozi Adichie (awdur cyfoes o Nigeria sydd wedi ennill gwobrau).<br>● I gael cymorth gyda hyn, edrychwch ar gyfrif Instagram gan athrawon Saesneg the right writing i gael syniadau am awduron amrywiol y gallech eu cynnwys. |

**Daearyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n defnyddio/arddangos mapiau sy'n seiliedig ar yr amcanestyniadau Mercator p | **Os ydych:**<br>● Byddwch yn ymwybodol bod y map hwn (a ddatblygwyd yn 1569) yn gorliwio rhai gwledydd a chyfandiroedd ar draul eraill, sydd wedi eu crebachu.<br>● Os ydych yn defnyddio'r map hwn, siaradwch â'r disgyblion ynglŷn â phwy luniodd y map hwn, i ba ddiben, a sut y dylid ei ddehongli. Edrychwch ar y gweithgaredd dysgu am amcanestyniadau map i gael cefnogaeth gyda hyn. |

| | |
|---|---|
| | • Er nad yw'r un map y byd yn berffaith (maent bob amser yn gwastadu cromlin y Ddaear), ystyriwch ddefnyddio gyda graddfa mwy cywir sef amcanestyniad Peters . |
| Ydy eich cwricwlwm daearyddiaeth yn rhoi trosolwg byd-eang, neu ydy e'n canolbwyntio'n bennaf ar gyfandiroedd a gwledydd gorllewinol? | **Os nad yw:**<br>• Gymaint â phosibl, gwnewch yn siŵr bod eich cwricwlwm yn rhoi trosolwg cytbwys, byd-eang o wledydd a diwylliannau ledled y byd.<br>• Edrychwch ar y post blog am help ar addysgu pynciau sensitif yn daearyddiaeth. |
| Ydy gwledydd datblygol yn cael eu trafod a'u cyflwyno mewn modd ystrydebol, yn unol â phortreadau negyddol yn y cyfryngau? Er enghraifft, ydy'r unig luniau y mae disgyblion yn eu gweld o oedolion a phlant y byd datblygol yn eu cyflwyno fel pobl truenus e.e. dioddefwyr newyn? | **Os ydynt:**<br>• Heriwch rhagdybiaethau a stereoteipiau'r disgyblion am y byd datblygol.<br>• Dylech osgoi defnyddio llyfrau gosod sy'n bytholi'r syniadau hyn trwy luniau.<br>• Rhowch ystod o luniau o wledydd datblygol i wrthsefyll cynrychioliadau negyddol yn y cyfryngau.<br>• Defnyddiwch strategaethau i ddadwneud 'tuedd anymwybodol' fel gofyn i ddisgyblion nodi pethau neu dynnu llun pum peth a ddaw i'r meddwl wrth feddwl am Affrica. Yna dangoswch ddinasoedd nendyrog o wledydd Affricanaidd a thrafodwch o ble y daeth y rhagdybiaethau a stereoteipiau. |